# Llais Ogwan

**Papur Bro Dyffryn Ogwen**

**Hydref 2013** **Rhif 437** **50c**


# Ar y Brig! Eto!




WRTH i hen wraig y tymhorau ddechrau dangos ei lliwiau yn y Dyffryn, mae rhyw deimlad o gyffro yn yr aer. Na, nid cyffro'r Nadolig sydd wedi dod ar ein gwarthaf yn rhy fuan, ond yn hytrach llwyddiant ysgubol ein hysgol uwchradd unwaith yn rhagor.

Mae darllenwyr y Llais yn hen gyfarwydd â darllen am lwyddiannau'r ysgol mewn meysydd academaidd a thu hwnt, a braf yw cyhoeddi fod yr ysgol eleni "Ar y Brig" yn llythrennol. Gyda phwyslais cynyddol Llywodraeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar fod yn agored wrth drafod addysg ein plant, maent wedi rhoi nifer o ddangosyddion mewn lle, gan roi cyfle i'r cyhoedd weld drostynt eu hunain sut mae ysgol yn perfformio o'i chymharu ag ysgolion erail cyffelyb.

Yn ddiweddar, cyhoeddodd y ddau bapur cenedlaethol yng Nghymru yr ystadegau yma ar ffurf cynghrair, a daeth Ysgol Dyffryn Ogwen i'r brig yng Ngwynedd, gan berfformio'n well na phob ysgol uwchradd arall yn Ngogledd Cymru, a sicrhau ei lle fel un o'r 5 ysgol uwchradd orau yng Nghymru.

Mae'r cyhoeddiad hwn yn destament i ddycnwch holl staff a disgyblion yr ysgol, a braf yw gallu llongyfarch y rhai hynny yn ein plith sy'n sicrhau fod plant a phobl ifanc Dyffryn Ogwen yn cael yr addysg orau bosib.

COFIWCH!

**Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen**

Nos Wener, Tachwedd 15
Dydd Sadwrn, Tachwedd 16

Eleni, bydd y cyfarfod nos Wener, yn ogystal â'r cyfarfod dydd Sadwrn, yn Neuadd Ysgol Dyffryn Ogwen.
Fe gofiwch, mae'n siwr, mai ar ffurf cyngerdd y bydd cyfarfod nos Wener, pryd y bydd unawdwyr lleisiol ac offerynnol, llefarwyr a chorau yn cael cyfle i arddangos eu doniau. Hefyd, cynhelir Seremoni Cadeirio'r bardd, a llenorion ifainc, yn ystod y noson hon.

**Dewch yn llu i fwynhau'r wledd flynyddol hon!**


**Rhagor o newyddion ysgolion yr ardal ar dudalennau 20 i 23**

# Llais Ogwan

## PANEL GOLYGYDDOL


**Derfel Roberts** ☎ 600965
hylaw@btinternet.com

**Ieuan Wyn** ☎ 600297
cylch@tiscali.co.uk

**Lowri Roberts** ☎ 600490
l.roberts11@btinternet.com

**Dewi Llewelyn Siôn** ☎ 07901 913901
dewision@hotmail.co.uk

**Fiona Cadwaladr Owen** ☎ 601592
Fiona@fowen.wanadoo.co.uk

**Siân Esmor Rees** ☎ 600427
sian_esmor@btinternet.com

**Neville Hughes** ☎ 600853
nev_hughes@btinternet.com

**Dewi A Morgan** ☎ 602440
dewimorgan@live.co.uk

**Trystan Pritchard** ☎ 07402 373444
trystanrp1@gmail.com

**Walter W Williams** ☎ 601167
waltermenai@yahoo.co.uk


### SWYDDOGION


**Cadeirydd:**
Dewi A Morgan, Park Villa,
Lôn Newydd Coetmor, Bethesda,
Gwynedd LL57 3DT ☎ 602440
dewimorgan@live.co.uk

**Trefnydd Hysbysebion:**
Neville Hughes, 14 Pant,
Bethesda LL57 3PA ☎ 600853
nev_hughes@btinternet.com

**Ysgrifennydd:**
Gareth Llwyd, Talgarnedd,
3 Sgwâr Buddug, Bethesda
LL57 3AH ☎ 601415
garethllwyd197@btinternet.com

**Trysorydd:**
Godfrey Northam, 4 Llwyn Bedw, Rachub,
Llanllechid LL57 3EZ ☎ 600872
godfreydnortham@hotmail.co,uk

**Y Llais Drwy'r Post:**
Owen G Jones, 1 Erw Las, Bethesda,
Gwynedd LL57 3NN ☎ 600184
post@llaisogwan.com


## Golygydd y Mis

Golygwyd y mis hwn gan Lowri Roberts
A Walter W. Williams

Golygyddion mis Tachwedd fydd Lowri Roberts, 8 Pen-y-ffriddoedd, Tregarth, LL57 4NY. (01248 600490)
l.roberts11@btinternet.com
a Walter W. Williams, 14 Erw Las, Bethesda, LL57 3NN (01248 601167)
waltermenai@yahoo.co.uk

Pob deunydd i law erbyn dydd Mercher, 30 Hydref os gwelwch yn dda. Plygu nos Iau, 14 Tachwedd, yng Nghanolfan Cefnfaes am 6.45.


**Nid yw pwyllgor Llais Ogwan na'r panel golygyddol o angenrheidrwydd yn cytuno â phob barn a fynegir gan ein cyfranwyr.**


## Rhoddion i'r Llais

| | |
|---|---|
| £5.00 | Elizabeth Buckley, Tregarth. |
| £5.00 | Er cof am Mam (Rose Pritchard) a fu farw ar 8 Hydref 1991. "Dal mae hiraeth yn fy nghalon." David, Rhes Elfed. |
| £10.00 | Er cof am Richard Williams, gan y teulu, Bethesda. |

**Diolch yn Fawr**

## Clwb Cyfeillion Llais Ogwan

**Gwobrau Hydref**

| | |
|---|---|
| £30.00 | (115) Bessie Buckley, 32 Maes Ogwen, Bethesda |
| £20.00 | (10) Neville Hughes, 14 Pant, Bethesda |
| £10.00 | (25) Mrs Muriel Own, 5 Pentref Llandygái |
| £5.00 | (130) Wynne ap Iorwerth, Glanrafon Bach, Mynydd Llandygái |

## Llais Ogwan ar Dâp

Os gwyddoch am rywun sy'n cael trafferth â'i olwg, ac a hoffai dderbyn copi o'r Llais ar gasét bob mis, cysylltwch ag un o'r canlynol:


**Gareth Llwyd ☎ 601415**
**Neville Hughes ☎ 600853**


**Cyhoeddir gan Bwyllgor Llais Ogwan**

Cysodwyd gan **Tasg**,
50 Stryd Fawr Bethesda,
LL57 3AN ☎ 07902 362 213
**post@tasg.co.uk**

Argraffwyd gan Wasg Ffrancon,
Dôl Ddafydd, Bethesda LL57 3LY
☎ 01248 601669


## Archebu Llais Ogwan drwy'r Post



Oherwydd costau cynyddol, ofnir y bydd yn rhaid codi prisiau anfon Llais Ogwan drwy'r post o fis Ionawr 2014 ymlaen.

**Y gost fydd -**
Gwledydd Prydain - £20
Ewrop - £30
Gweddill y Byd - £40

Owen G. Jones, 1 Erw Las, Bethesda, Gwynedd LL57 3NN
post@llaisogwan.com
☎ 01248 600184


**Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru**


## DYDDIADUR Y DYFFRYN

### Mis Hydref

19 Bore Coffi Plaid Cymru. Caffi Coed y Brenin. 10.00 – 12.00

21 Te Bach. Capel Carmel Llanllechid. 2.30 – 4.00

23 Plaid Lafur Dyffryn Ogwen. Cefnfaes am 7.30.

27 Gwasanaeth Ymddeoliad y Parchg. Geraint Hughes. Carmel Llanllechid 2.00

29 Cangen Plaid Cymru Dyffryn Ogwen. Cefnfaes am 7.00

31 Merched y Wawr Bethesda. "Bywyd Gwyllt Eryri". Cefnfaes am 7.00

### Mis Tachwedd

02 Bore Coffi Merched y Wawr, Bethesda. Cefnfaes. 9.30 – 12.00

04 Merched y Wawr Tregarth. Rhian Sinnot. Festri Shiloh am 7.00

06 Cyfarfod Blynyddol Llais Ogwan. Cefnfaes am 7.30.

07 Sefydliad y Merched Carneddi. Cyf. Blynyddol a Swper Cynhaeaf. Cefnfaes am 7.00

09 Marchnad Ogwen. Clwb Rygbi Bethesda. 10.00 – 2.00

09 Bore Coffi er budd Nicola Williams. Caffi Coed y Brenin. 10.00 – 12.00

13 Cyfarfod Blynyddol Canolfan Cefnfaes. Cefnfaes am 7.00

15 a 16 Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen. Neuadd Ysgol Dyffryn Ogwen.

19 Cyfarfod Blynyddol Caban y Gerlan. Yn y Caban am 7.00

21 Plygu Llais Ogwan. Cefnfaes am 6.45.

26 Cangen Plaid Cymru Dyffryn Ogwen. Cefnfaes am 7.00

27 Plaid Lafur Dyffryn Ogwen. Cefnfaes am 7.30.

28 Merched y Wawr Bethesda. Jonsi, Ambiwlans Awyr Cymru. Cefnfaes 7.00

### Mis Rhagfyr

14 Marchnad Ogwen. Clwb Rygbi Bethesda. 10.00 – 2.00.

## Diarhebion Lleol

**o gasgliad Hugh Derfel Hughes yn 'Hynafiaethau Llandegai a Llanllechid.**

Cyn gyfrwysed â llwynog yr Aryg.
(mae'r Aryg yn lle hynod am ddaearau llwynogod)

Tri lli Awst.
(am afon Ogwen)

Ennill nodwydd ddur, a cholli trosolhaearn.
(mae yma wrthgyferbynu rhwng y bach a'r mawr, a hefyd rhwng y wraig yn y cartref a'r gŵr yn y gwaith).

Fel ar Gefn Nithgroen
(Mae Cefn Nithgroen yn lle hynod am wynt yn agos i Fwlch y Ddeufaen)

## Yr Ymgyrch i Warchod Coetmor

# Y Gwrthwynebiad yn Cryfhau

Bu cynnydd sylweddol yn y gwrthwynebiad i'r bwriad o godi stad 69 o dai yng Nghoetmor, ac mae llu o drigolion Bethesda a'r cylch wedi anfon at Wasanaeth Cynllunio y cyngor sir i ddweud eu bod yn erbyn y datblygiad. Mae mwy a mwy o bobl yr ardal yn sylweddoli nad codi stadau mawr ydy'r ateb i anghenion tai ond adeiladu niferoedd bychain o dai mewn gwahanol safleoedd ar wasgar fel eu bod yn plethu i mewn i'r gymuned heb ddinistrio gwead y gymdeithas leol. Mae digon o dystiolaeth yng Ngwynedd ac mewn siroedd eraill i ddangos bod stadau sy'n rhy fawr yn dinistrio gwead cymdogaethau. Dyma pam bod Pwyllgor Diogelu Coetmor wedi galw am arolwg lleol o anghenion tai er mwyn cael gwybod beth ydy'r gofyn am dai newydd a sut fath o dai mae pobl yn dymuno'u cael yn yr ardal. Rydym yn awyddus i weld sefyllfa lle bydd gan y cynghorau cymuned ran mewn creu strategaeth leol i ddarparu tai yn ôl yr angen a'r gofyn lleol.

**Yr ymgyrch hyd yma a'r datblygiadau diweddaraf:**

- Cyflwynwyd cais cynllunio amlinellol i Gyngor Gwynedd fis Ebrill eleni gan gwmni Carter Jonas ar ran y datblygwr, Richard Douglas Pennant, i godi 69 o dai, yn cynnwys 20 o dai fforddiadwy, yng Nghoetmor, Bethesda.

- Daeth bron 200 o bobl ynghyd i gyfarfod cyhoeddus yn Neuadd Ogwen, Bethesda ar 15fed Mai i ddatgan eu gwrthwynebiad i'r datblygiad arfaethedig, a chodwyd pwyllgor amddiffyn - Pwyllgor Diogelu Coetmor - i arwain yr ymgyrch.

- Anfonwyd llythyr gan Bwyllgor Diogelu Coetmor at Wasanaeth Cynllunio Gwynedd yn gwrthwynebu'r cais cynllunio ar sail gwahanol agweddau ar y datblygiad arfaethedig - Priffyrdd, Draeniad, Addasrwydd y tir, Lleoliad y datblygiad, Dwysedd a dyluniad y datblygiad, Yr Angen am dai yn Nyffryn Ogwen, ac Effaith y datblygiad ar ddiwylliant, iaith a chymuned Dyffryn Ogwen. Yn ogystal, anfonwyd llythyrau gan unigolion yn canolbwyntio ac yn ymhelaethu ar y gwahanol agweddau hyn er mwyn dangos bod y datblygiad arfaethedig yn gwbl anaddas i'r ardal.

- Gofynnwyd i Gyngor Gwynedd gomisiynu Asesiad Ardrawiad Iaith o'r cais cynllunio. Barn Pwyllgor Diogelu Coetmor yw mai'r Cyngor ei hun ddylai gomisiynu asesiad o'r fath, a hynny oherwydd mai'r Cyngor ei hun fel Awdurdod Cynllunio sy'n gyfrifol am y polisi sy'n datgan bod gwarchod y Gymraeg yn amod caniatâd cynllunio, a'r Cyngor sy'n gyfrifol hefyd am gymeradwyo neu wrthod ceisiadau cynllunio.

- Yn eu cais cynllunio ar ran Richard Douglas Penant, mae cwmni Carter Jonas wedi cyflwyno gwybodaeth anghywir, sef honni'n ddi-sail fod arolwg o anghenion tai wedi ei gynnal ym Methesda. Rydym wedi gofyn i Wasanaeth Cynllunio Cyngor Gwynedd wrthod y cais cynllunio oherwydd ei fod yn cynnwys gwybodaeth gamarweiniol. Nid yw Cyngor Gwynedd wedi ymateb eto.

- Mae nifer sylweddol o drigolion Dyffryn Ogwen wedi anfon llythyrau a negeseuon e-bost at Gyngor Gwynedd yn gwrthwynebu'r datblygiad, ac mae'r nifer yn dal i gynyddu.

- Bellach, mae dros fil o enwau ar y ddeiseb yn erbyn y datblygiad, a byddwn yn trefnu i'w chyflwyno gyda hyn. Os nad ydych wedi cael cyfle i'w llofnodi, dewch i gysylltiad ag aelodau'r Pwyllgor.

- Deallwn fod nifer dda o unigolion o rannau eraill o Wynedd ac o ardaloedd ledled Cymru hefyd wedi anfon llythyrau yn galw ar Gyngor Gwynedd i wrthod caniatâd cynllunio i'r datblygiad arfaethedig.

- Mae'r canlynol wedi datgan gwrthwynebiad i'r cais cynllunio: Cyngor Cymuned Bethesda, Cyngor Cymuned Llanllechid, Cyngor Cymuned Llandygái, Cangen Dyffryn Ogwen o Blaid Cymru, Pwyllgor Rhanbarth Arfon Plaid Cymru, Alun Ffred Jones AC, Hywel Williams AS, Menter Iaith Dyffryn Ogwen, Cylch yr Iaith, Cymdeithas yr Iaith, Dyfodol i'r Iaith, a Mentrau Iaith Cymru.

Erbyn hyn, mae llawer iawn mwy o bobl yn siarad yn erbyn gorddatblygu, sef codi mwy o dai nag sydd eu hangen yn lleol, ac mae nifer cynyddol o drigolion gwahanol ardaloedd yn sylweddoli fod rhaid newid y drefn. Mae cynghorau sir yn dechrau ymateb i'r farn hon, ac rydym yn disgwyl arweiniad gan Gyngor Gwynedd ar y mater.

Cofiwch, os nad ydych wedi gwneud hyd yma, anfonwch i wrthwynebu'r cais cynllunio, a hynny trwy lythyr copi caled at Glyn Llewelyn Gruffudd, Uwch Swyddog Cynllunio, Swyddfa'r Cyngor, Ffordd y Cob, Pwllheli, Gwynedd LL53 5AA
neu trwy lythyr e-bost ato i: cynllunio@gwynedd.gov.uk
Cofiwch nodi cyfeirnod y cais cynllunio, sef C13/0412/13/AM

**Pwyllgor Diogelu Coetmor**




## O 'Tŷ Ni'

I'r plantos, mawr a bach, y tro yma!
Ymhen llai na 3 wythnos fe fydd hi'n noson Tân Gwyllt a dwi'n siŵr eich bod yn edrych ymlaen! Enw da ydi "tân gwyllt" ynte! Mae'r sŵn, y golau, y mwg ac wrth gwrs y lliwiau llachar yn disgyn yn gawodydd o'r awyr dywyll yn gyffrous dros ben. Mi fuaswn i yn hoffi cael hanes eich noson Tân Gwyllt chi.

O China y daeth y Tân Gwyllt cyntaf, gannoedd lawer o flynyddoedd yn ôl. Erbyn heddiw mae Tân Gwyllt yn boblogaidd iawn dros y byd i gyd. Bydd nifer fawr o wledydd y byd yn croesawu dechrau blwyddyn newydd gydag arddangosfa fawr o Dân Gwyllt pan fydd hi'n hanner nos ar Nos Galan.

Mae seremonïau agor a chau'r Gemau Olympaidd hefyd yn gorffen gyda sioe o Dân Gwyllt cyffrous. Yn Iwerddon, ar Noson Calan Gaeaf mae sioeau Tân Gwyllt mawr.

Y sioe Dân Gwyllt fwyaf erioed oedd i ddathlu gwlad Kuwait yn 50 oed yn 2012. Cafodd 77,282 eu tanio! Ar ynys Malta yr oedd yr Olwyn Catrin fwyaf yn mesur dros 32 metr ar draws. (Gofynnwch i oedolyn wneud 32 o gamau mawr i weld maint yr olwyn)

Y nifer mwyaf o rocedi a daniwyd mewn 30 eiliad yw 125,801!! Yn y Philipinas y digwyddodd hyn.
Y roced fwyaf erioed oedd un yn Portiwgal yn pwyso 13.40 cilogram.

Mwynhewch eich Noson Tân Gwyllt ac yn fwy na dim, byddwch yn ofalus a chadw'n saff. Rhaid i ni hefyd beidio anghofio'r anifeiliaid sydd ddim yn hoffi'r sŵn mawr a'r goleuadau llachar a'u cadw hwythau'n saff.

## O 'Tŷ Chi'

O Diar! Neb Adra !

**Gobeithio'n wir y bydd rhywun yn rhywle adref mis nesaf. Cysylltwch â Mrs. J Jones, 1 Erw Las, Bethesda, Gwynedd LL57 3NN neu jan@erwlas.freeserve.co.uk.**

## *Hysbysiad*

## Cofrestru Etholwyr 2014

**Caernarfon 01286 679058**

**Oes rhaid i mi gofrestru?**
Oes, mae'r gyfraith yn dweud bod rhaid i chi gofrestru ac os na fyddwch chi'n gwneud hynny fe allwch gael dirwy neu gyfnod yn y carchar.

**Pam ddylwn i gofrestru?**
Bydd cofrestru yn golygu bod y manylion sydd genym amdanoch yn gywir ac y byddwch yn gallu pleidleisio os cynhelir etholiad yn eich ardal.

Mae banciau ac asiantaethau archwilio credyd yn defnyddio'r gofrestr etholiadol i gadanhau yn lle rydych yn byw. Os nad ydych ar y gofrestr efallai na fyddwch yn gallu agor cyfrif banc neu gael credyd.

# Llythyrau

**Gofalaeth Bro Dyffryn Ogwen**

**Annwyl gyfeillion,**
Bydd Y Parchedig Geraint S. R. Hughes, yn ymddeol ddiwedd mis Hydref yn dilyn 16 mlynedd ac 8 mis o wasanaeth i'r Ofalaeth (cychwynnodd yn Nyffryn Ogwen ddechrau Mawrth 1997).

I gydnabod y gwasanaeth hwnnw mae Pwyllgor yr Ofalaeth wedi penderfynnu agor TYSTEB iddo gan wahodd unrhyw un sy'n dymuno, i gyfrannu i'r DYSTEB honno. Cysylltwch â Mr Neville Hughes ar 01248 600 853.

BYDD Y DYSTEB AR AGOR TAN DDYDD SUL, 20 HYDREF, ac yna bydd yr arian a gasglwyd yn cael ei drosglwyddo i Drysorydd yr Ofalaeth, i'w cyflwyno i'r Parchedig. Geraint Hughes yn yr oedfa ymadawol, a gynhelir yng Ngharmel Llanllechid ar brynhawn Sul, 27 Hydref , am 2 o'r gloch.

Yn gywir iawn,
**Swyddogion Pwyllgor yr Ofalaeth.**

**Annwyl Olygydd,**
Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, Sarah Rochira, ar fin defnyddio ei phwerau cyfreithiol i adolygu ansawdd bywyd a gofal pobl hŷn mewn cartrefi gofal ledled Cymru

Ar gyfer hyn, mae'r Comisiynydd a'i thîm yn dymuno casglu gwybodaeth gan gynifer o bobl sy'n byw mewn cartrefi gofal yn eich ardal â phosibl, yn ogystal â'u teuluoedd a'u gofalwyr.

Bydd yr adolygiad, a lansir yn ystod yr wythnos sy'n dechrau 14 Hydref, yn penderfynu a oes gan bobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal yn eich ardal chi ac yng Nghymru gyfan, ansawdd bywyd da.

Er mwyn cyrraedd cynifer o bobl â phosibl a chaniatáu iddynt leisio eu barn drwy lenwi holiadur, a fyddai'n bosibl i'r Comisiynydd gael colofn/eitem newyddion/erthygl yn eich cyhoeddiad yn ystod wythnos Hydref 14?

Byddai hyn yn caniatáu i'r Comisiynydd amlinellu pwysigrwydd yr adolygiad a gallai Sarah hefyd ei addasu ar gyfer eich ardal, gan bwysleisio sut y bydd pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal wrth galon ei hargymhellion.

Bydd yr adolygiad hefyd yn defnyddio adborth gan awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol, darparwyr cartrefi gofal, rheoleiddwyr ac arolygwyr er mwyn darparu dadansoddiad trylwyr o'r gofal sydd ar gael.

A fyddech cystal â chysylltu â mi os gallwch chi gynnig colofn i'r Comisiynydd yn eich papur newydd i amlinellu pwysigrwydd yr adolygiad, neu os hoffech ragor o wybodaeth ar gyfer eitem newyddion. Hefyd, nodwch beth yw'r dyddiad olaf ar gyfer cyflwyno gwybodaeth ar gyfer eich cyhoeddiad os gwelwch yn dda.

**Cofion gorau,**
**Chris Wood**

**Y Gadlas**
**14 Lys Gwyn ,**
**Caernarfon LL55 1EN**

Annwyl ddarllenwyr,
I bwrpas ymchwil, tybed a oes gan rai o ddarllenwyr Llais Ogwen wybodaeth am ddigwyddiadau neu draddodiadau am y Parchg John Williams, Brynsiencyn, yn recriwtio yn y fro yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf? Gwn iddi dalu sawl ymweliad â Dyffryn Ogwen ond anaml, a llwm o ran cynnwys, ydi'r cyfeiriadau yn y papurau newydd. Pe byddai hanes ar gael am ddigwyddiad arbennig byddwn y falch o glywed amdano.

**Yn gywir,**
**Harri Parri gadlas14@btinternet.com**


**Blodau Hyfryd**
7 Rhes Buddug, Bethesda
☎ 602112 (*gyda'r nos* 602767)
***Blodau ar gyfer pob achlysur***

**Priodasau, Angladdau ayyb**
**Ffres a Sidan**

*Gwasanaeth 'Archebu a Danfon'*


**Bwthyn**
**5, Bryn Eithinog**
**Bangor**
**Gwynedd**
**LL57 2LA**

Hoffwn ddiolch i bawb am eu haelioni ar achlysur fy ymddeoliad o swydd pennaeth Ysgol Tregarth ac Ysgol Bodfeurig. Derbyniais lu o gardiau, anrhegion a dymuniadau gwresog sy'n adlewyrchiad o'r ardal.

Treuliais flynyddoedd lawer yn arwain y ddwy ysgol, a braint oedd cydweithio â staff ymroddgar, Llywodraethwyr a rhieni cefnogol a phlant annwyl a gweithgar. Diolchaf hefyd am gefnogaeth a chymorth trigolion yr ardal a gyfrannodd at lwyddiant y ddwy ysgol, ar yr ochr academaidd ac yn gymdeithasol.

Byddaf yn colli cwmni penaethiaid y dalgylch, a diolchaf am y cydweithio hapus a fu rhyngom dros y blynyddoedd.

Dymunaf bob llwyddiant i'r ddwy ysgol o dan arweiniad Mrs Alison Halliday ac edrychaf ymlaen i glywed am lwyddiannau'r ysgolion yn y dyfodol.

Yn gywir

**Meriel Parry**


MODURON
PANDY
Cyf.

**Tregarth**
Gwasanaeth ♦ Atgyweirio
Canolfan 'Unipart'
M.O.T.

**Ffôn: 01248 600619 (dydd)**


## Llanast!

**Cyfieithiad Gareth Miles o 'Le Dieu du Carnage' gan Yasmina Reza**

2 fam, 2 dad, 2 fab × wisgi, tiwlips a ffôn = llanast!

Mae dau bâr o rieni yn cwrdd i drafod ymddygiad eu plant anystywallt - mae plentyn un ohonynt wedi brifo plentyn y llall mewn parc. Mae'r cyfarfod yn cychwyn yn o gall, a'r pedwar yn ddigon bonheddig, ond wrth i amser fynd heibio mae ymddygiad y pedwar yn mynd yn fwyfwy plentynnaidd, a diolch i botel o Benderyn, daw'r cyfarfyddiad i ben mewn anhrefn llwyr! Mae chwarae'n troi'n chwerw go iawn yn y ddrama ddoniol, ddeifiol hon.

Dyma un o ddramâu mwyaf llwyddiannus y ddegawd ddiwethaf. Drama sydd wedi derbyn llu o wobrau, ac sydd wedi hen ennill ei phlwyf ar gwricwlwm addysg Ewrop. Yn ôl yr awdur yr hyn sydd yn ei hysbrydoli i ysgrifennu yw'r awydd i geisio dadlennu ac archwilio'r bwlch sy'n bodoli rhwng ein hunaniaeth go iawn a'n wyneb cyhoeddus. Mae'r canlyniadau'n ddoniol ac yn annifyr am yn ail.

Yn dilyn llwyddiant ysgubol ein taith fer o'r cynhyrchiad arbennig hwn ddiwedd y flwyddyn ddiwethaf, pan werthwyd pob tocyn ar gyfer pob perfformiad, 'rydym wedi penderfynu atgyfodi'r sioe, a byddwn yn ei theithio o amgylch Cymru o 12 – 30 o Dachwedd. 'Rydym yn ffyddiog tu hwnt y bydd y daith hon yn sicr o ddenu cynulleidfaoedd yn eu cannoedd.

Denwyd sylw at y cynhyrchiad hefyd yn sgil yr enwebiadau a gawsom am Wobrau Beirniaid Theatr Cymru – Un ar gyfer y Cynhyrchiad Gorau yn yr iaith Gymraeg ac un arall i Rebecca Harries am yr Actores Orau. 'Rydym yn hynod o falch mai Rebecca gipiodd y wobr.

*"Cyfieithiad campus, perfformiadau safonol eithriadol a chynhyrchiad gwerth chweil wedi ei gyfarwyddo'n arbennig o gelfydd. Llwyddiant ysgubol oedd y perfformiad hwn o Llanast! a hynny oherwydd deunydd craidd o safon, cast talentog, cyfarwyddo medrus Betsan Llwyd a llwyfannu proffesiynol criw arferol Theatr Bara Caws."* (Lyn T. Jones)

**Yr Actorion :** Emlyn Gomer, Rebecca Harries, Lauren Phillips a Llion Williams
Cyfarwyddwr : Betsan Llwyd

**Nos Fawrth 12 Tachwedd**
**Nos Fercher 13 Tachwedd**
Galeri, Caernarfon 7.30
Swyddfa Docynnau: 01286 685222

**Nos Iau 14 Tachwedd**
Bangor / Glanaethwy 7.30
Linda Brown: 01286 676335
**Nos Wener 15 Tachwedd**
Theatr Fach Llangefni 7:30
Menter Mon: 01248 725732

**TALWRN Y BEIRDD**
Mae BBC Radio Cymru yn chwilio am leoliadau i recordio cyfres newydd o Talwrn y Beirdd.

Os oes gyda chi ddiddordeb i gael Talwrn, cysylltwch â'r orsaf ar ytalwrn@bbc.co.uk neu 03703 500 600.

# Bethesda

**Llên Ogwen,**
Stryd Fawr, Bethesda
☎ **600431**

**Siop Kathy**
Stryd Fawr, Bethesda

**Fiona Cadwaladr Owen,**
Bryn Meurig Bach,
Coed y Parc, Bethesda,
LL57 4YW ☎ **601592**

**Joe Hughes,**
Awel y Nant, Ffordd Ffrydlas,
Bethesda ☎ **601902**

## Merched y Wawr Cangen Bethesda.

Agorwyd y Tymor 2013-2014 ar Fedi'r 26ain o dan lywyddiaeth y Fns. Elena Owen, gyda Jennie Jones a Pat Corns yn Ysgrifenyddion a Glenys Clark fel Trysorydd. Glenys hefyd oedd y cyfeilydd i gân agoriadol y mudiad:-
O! eiriau mwyn fy iaith, anwylaf chwi.

**Anerchiad y llywydd.**
Croesawyd yr holl aelodau ynghyd ag un aelod newydd , sef Rhiannon Efans. Mae Rhiannon wedi ail-ymaelodi â'r mudiad wedi blynyddoedd fel Cynghorydd. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Eirlys Jones,Penybryn a Muriel Williams,Glanffrydlas sydd ddim yn teimlo'n ddigon da i ymuno â ni ar hyn o bryd.Roedd yn bryder gennym nad oedd Jean (Ogwen) wedi bod yn dda yn ystod yr haf a dymunwn wellhad buan iddynt i gyd. I'r gwrthwyneb, da oedd deall fod Medi ac Eurwen yn gwella.

**Llongyfarchiadau.**
1. I'r llywydd ,Elena sydd yn hen nain a Jennie, yr Ysgrifenyddes sydd hefyd yn hen nain. Cawsom rybudd i beidio disgwyl gormod gan ddwy hen nain!!
2. Medi yn dathlu penblwydd arbennig cyn diwedd y mis.
3. Eirwen (Griffith) wedi dathlu pen-blwydd arbennig yn 80 oed.
4. Margaret Jones, Cae Drain a'i merch Jên Margiad, fel aelodau o dîm Merched y Wawr, Arfon a enillodd BRIF WOBR Celf a Chrefft yn Sioe Frenhinol , Llanelwedd. Fel arfer, roedd y ddwy wedi trefnu gwaith safonol iawn fel aelodau o'r tîm.
5. Roedd nifer o'r neiniau yn ymfalchïo fod eu wyresau/ wyrion wedi bod yn llwydiannus yn y gwahanol arholiadau eleni.

**Y Pwyllgor Anabl**
Bydd aelodau'r Pwyllgor Anabl yn codi arian yn ystod y tymor i elusen 'Lloches i ferched'

Yna, daeth yn amser i'r llywydd groesawu 'Hogia'r Bonc' i'n diddori a chawsom noson i'w chofio. Mae talent lleol bob amser yn werthfawr a phob un ohonynt yn aelod o Gôr Penrhyn , yn ogystal. Cawsom ninnau ymuno yn y gân a'r hwyl Rhoddwyd diolchiadau haeddiannol iddynt gan Elena a darparwyd lluniaeth ardderchog ar eu cyfer gan Jennie, Pat, Glenys, Eleanor a Margaret.

Rhoddwyd y wobr lwcus gan Jennie a'r enillydd oedd Glenys.

Byddwn yn edrych ymlaen at ein cyfarfod nesaf gyda Gethin Davies o'r Parc Cenedlaethol yn sôn am 'Fywyd Gwyllt Eryri', a'r Bore Coffi ar Dachwedd yr ail yng Nghanolfan y Cefnfaes. Mynediad £1. Dewch yn llu.

## Diolch – Bore Coffi Macmillan

Mae Christine a Gwyn o Westy'r Douglas yn dymuno diolch yn fawr i bawb a helpodd i wneud y bore coffi a gynhaliwyd ganddynt ar 28 Medi, yn un mor llwyddiannus. Codwyd y swm anrhydeddus o £390 i Macmillan ar y diwrnod. Diolch i bawb am helpu, pawb a roddodd eitemau i'r raffl, Richard Gwasg Ffrancon am wneud posteri ychwanegol yn rhad ac am ddim, ac i Tescvo Express Bethesda am y llefrith. Roedd 19 o wobrau yn y raffl, ac enillwyd y wobr gyntaf, sef bocs o lysiau ffres o ardd Alan Davies, Mynydd Llandygai, gan Helen (gwallt) a Dylan. Diolch am eich cefnogaeth a'ch haelioni.



**Rhai o'r cefnogwyr yn y Douglas.**

## Cylch Meithrin Cefnfaes

Hoffai'r Cylch ddiolch o galon i Glyn ac Ann, Y Bull, Bethesda am eu rhodd.



**Rhai o rai o blant y Cylch efo Anti Ann!**

**Bownsio Noddedig**
Ar brynhawn Llun, Medi 30eg bu'r mwyafrif o blant bach Cylch Meithrin Cefnfaes yn brysur yn 'bownsio' i gasglu arian tuag at y Cylch. Diolch i chi gyd am eich gwaith caled!

**Disgo Calan Gaeaf**
Bydd y Cylch yn cynnal disgo Calan Gaeaf eto eleni yng Nghlwb Criced Bethesda ar nos Iau, Hydref 31eg am 5 o'r gloch. Croeso cynnes i bawb!

**Priodas**
Ar Fedi 21 yn Nhrefdraeth, Sir Benfro, priodwyd Iwan Llechid Owen, gynt o Rhos y Nant, a Rhian Williams, gynt o Gaerfyrddin. Mae'r ddau yn byw ac yn gweithio yng Nghaerdydd, ac yn aelodau o Gôr Caerdydd.

Llongyfarchiadau mawr i'r ddau, a dymuniadau gorau am y dyfodol gan y teulu i gyd.



**Rhian ac Iwan**

**Genedigaeth**
Llongyfarchiadau i Mari a Meilyr Wyn, 21 Stryd Cefnfaes ar enedigaeth Ifan Emlyn, brawd bach i Deio. Pob dymuniad da i'r bychan a'r teulu.

**Graddio**
Llongyfarchiadau mawr i Elin Fflur Pritchard, ar ennill gradd 2.1 BSc mewn Therapi Galwedigaethol ym Mhrifysgol Glyndŵr. Pob lwc i ti yn dy swydd newydd Elin, oddi wrth Nain a Taid Bryn Owen a'r teulu i gyd!

Llongyfarchiadau i Nia Wyn Jones, Erw Las, ar ennill gradd 2-1 mewn nyrsio ac anableddau dysgu ym Mhrifysgl Bangor. Da iawn Nia, a dymuniadau gorau ar dy swydd newydd yn ardal Dolgellau.

**Ysbyty**
Dymunwn wellhad buan i Ann Evans, 22 Erw Las, a fu yn Ysbyty Frenhinol Lerpwl yn ystod misoedd Awst a Medi yn derbyn llawdriniaeth fawr.

Dymuna Ann ddiolch o galon i Maureen a Brenda am eu ffyddlondeb a'u caredigrwydd yn ystod ei harosiad yn yr ysbyty ac ar ol iddi ddod gartref. Diolch!

**Cartref Newydd**
Croeso cynnes iawn i Rhodri, Rhian a Bleddyn i'w cartref newydd yn Rhos-y-nant.

**Pen-blwydd**
Dathlodd Mr Owie Williams, Maesygarnedd ben-blwydd arbennig ar 14 Medi. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i chwi.

**Ysbyty**
Cofion cynnes a gwellhad buan u bawb sy'n sâl ac yn derbyn triniaeth yn yr ysbyty, gan gynnwys:
Mrs Heddwen Jones, Rhos-y-coed;
Mr John Roberts, Arafa-don;
Mr Emlyn Evans, Rhos-y-nant;
Mr Bert Hughes, Stryd John;
Mrs Allyson Thomas, Rhes Gordon;
Mrs Jean Cross, Adwy'r Nant.

**Cydymdeimo**
Anfonwn ein cydymdeimlad at sawl teulu a fu mewn profedigaeth yn ddiweddar gan gynnwys:
Mr a Mrs Dilwyn Owen a'r teulu, Erw Las (collodd Dilwyn ei frawd yn Llanfairfechan);
Mr Dafydd Pritchard a'r teulu, Rhes Elfed (collodd Dafydd ei chwaer, Helen)

**Diolch**
Dymuna teulu y diweddar Richard Williams ddiolch o waelod calon i'r teulu, cyfeillion a chymdogion am y caredigrwydd a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth yn ddiweddar.

Diolch am y llu cardiau a negeseuon a dderbyniwyd. Diolch hefyd am y rhoddion hael a dderbyniwyd tuag at yr elusen Headway (Cymdeithas Anafiadau i'r Ymenydd)

Diolch arbennig i'r Parchedig Dafydd Coetmor (cefnder Richard) am y gwasanaeth hyfryd, ac i Stephen Jones y trefnydd angladdau am ei drefniadau trylwyr.

## Yr Eglwys Unedig

**Gweinidog: Y Parch Geraint Hughes**

*Croesaw Medi, fis fy serch*
*Mis y porffor ar y ffriddoedd*
- Eifion Wyn

Er croesawu'r mis, trist yw meddwl fod llawer o'r aelodau dan anhwylder ac yn methu presenoli eu hunain yn yr oedfaon. Anfonwn ein cofion cywiraf atynt a'u cynnwys yn ein gweddïau. Boed bendith arnynt. Meddyliwn yn arbennig am un o 'hoelion wyth' yr Eglwys, sef y Br. Emlyn Evans, sydd wedi bod droeon yn yr Ysbyty yn ddiweddar. Dymunwn adferiad llwyr a buan iddo.

Wedi seibiant mis Awst ail-ddechreuodd y gweithgareddau:-
Ar y 3ydd, cynhaliwyd y Cyfarfod Gweddi o dan ofal Rhiannon Efans, gydag Elna Jones a Joe Hughes yn cynorthwyo i gyfeiliant Gwenno Evans.

Pleser oedd gweld plant yr Ysgol Sul yn ôl wedi gwyliau'r haf. Lleucu, Luned a Tomos oedd yn ledio emyn y plant y mis hwn.

Cynhaliwyd y Seiat yn wythnosol a Chlwb yr Ieuainc ar nos Fawrth. Mae'r Clwb yn parhau â'r gwaith da yn casglu tuag at y Banc Bwyd, ac yn paratoi at y Gwasanaeth Diolchgarwch.

Llongyfarchiadau i Ieuan a Blodeuwedd Wyn ar ddod yn daid a nain unwaith eto i fachgen bach o'r enw Ifan Emlyn. Longyfarchwn hefyd y Parchedig John Owen ar gyrraedd penblwydd arbennig yn 85 oed. Yn ogystal, estynnwn gyfarchion i'r ieuainc a fu'n llwyddiannus yn y gwahanol arholiadau eleni, a dymunwn yn dda i bob un ohonynt yng nghamau nesaf eu gyrfa.

**Gwella** Bu Rhys mewn damwain yn ddiweddar pan gafodd ei daro i lawr gan gar ar Ffordd Bangor.,Mae Rhys yn ŵyr i Selwyn Owen, 12 Ffordd Ffrydlas ac yn fab i Alwena, un o athrawon yr Ysgol Sul. Mae Rhys yn gwella yn ddyddiol a dymunwn adferiad buan iddo.

**Cydymdeimlad** Anfonwn ein cydymdeimlad at Dafydd Pritchard, Rhes Elfed, yn ei brofedigaeth o golli ei chwaer, Helen, a hefyd at Heulwen Roberts, Ystrad Awel – roedd Helen yn gyfnither iddi.

**Adnod y mis.** Mewn gair, y mae ffydd, gobaith, cariad, y tri hyn yn aros. A'r mwyaf o'r rhain yw cariad. Corinthiaid.1 13.13.

Oedfaon y Sul am 10.00 ac am 5.00
**Hydref 20**
Diolchgarwch yr Ysgol Sul. (10.00)
Y Parchedig D.Coetmor Williams (5.00)
**Hydref 27**
Y Parchedig Geraint Hughes (10.00)
Oedfa ymadawol Y Parchedig Geraint Hughes yng nghapel Carmel, Llanllechid am 2.00 o'r gloch.

**Croeso cynnes i bawb i'r cyfarfod arbennig yma.**

**Tachwedd 3**
Mr. Richard Lloyd Jones.
**Tachwedd 10**
Mrs.M.M.Williams (10.00)
Parchedig R.Capon (5.00)
**Tachwedd 17**
Parchedig Harri Parri

## Apêl Eleanor

Yn ddiweddar prynodd Apel Eleanor Jones fatres Airpal arbennig a'i gyflwyno i Ward Alaw. Mae hon yn fatres arbennig, a bydd o gymorth mawr i'r gwaith ardderchog y mae staff Ward Alaw yn ei wneud, ac o fudd mawr i'r cleifion. Roedd y fatres yn costio rhai miloedd o bunnau, ac roedd staff y Ward yn falch iawn ohoni, ac o'r hyfforddiant arbennig a gawsant ar ei defnyddio.



Yn y llun, gwelir Joe Hughes, a Nia Williams. aelodau o'r Pwyllgor Apêl, gydag aelod o staff oedd yn cael hyfforddiant ar ddefnyddio'r fatres.




Yn ddiweddar bu staff Co-op Travel, Bangor, yn trefnu gweithgaredd i godi arian ar gyfer yr Apêl ym Mangor. Yn y llun gwelir y staff, sy'n cynnwys Nerys, merch Eleanor, yn codi arian.

## Eglwys Crist, Glanogwen

**Cynhelir Gwasanaethau fel a ganlyn:**

**Sul Cyntaf pob mis**
Cymun Bendigaid – 8.00am
Gwasanaeth Teuluol – 11.00am

**Ail a thrydydd Sul pob mis**
Cymun Bendigaid Cymraeg 11.00am

**Pedwerydd Sul pob mis**
Cymun Bendigaid dwyieithog 11.00am

**Pumed Sul**
Gwasanaeth ar y cyd gyda Mynydd Llandegai a Phentir
(Lleoliad i'w gyhoeddi)

**Pob bore Mercher** am 10.30am - Cymun Bendigaid

**Croeso cynnes i bawb i'r gwasanaethau uchod.**

Anfonwn ein cofion at bawb sydd yn dioddef o unrhyw anhwylder gan obeithio y daw adferiad buan i chwi i gyd.

**Arch Noa** - Clwb bach yw hwn ar gyfer plant bach cyn oed ysgol. Mae'n cyfarfod yn Ysgol Abercaseg bob bore Llun am 9.15am.

**Sul Y Cofio** – Mis Tachwedd Cynhelir gwasanaeth wrth y Gofeb ym Methesda am 10.45am ac yna yn yr Eglwys am 11.00am

**Diolch**
Dymuna Owie Williams, Maes y Garnedd, ddiolch yn fawr i bawb a gofiodd amdano ar ei ben-blwydd arbennig (80 mlwydd) ar 14 Medi. Diolch yn arbennig i Joyce am ddarparu bwyd y parti yn y cartref ar gyfer ffrindiau ar y dydd Gwener – a diolch hefyd i bawb wnaeth alw draw!
Diolch arbennig i'r teulu am yr ail barti yn yr Antelope ar y dydd Sadwrn. Diolch o galon!

## Caffi Coed y Brenin



Gwnaethpwyd elw o £867.24 ym more coffi Ambiwlans Awyr yng Ngahffi Coed y Brenin yn ystod mis Medi. Diolch yn fawr i Karen a phawb fu'n cefnogi. Yn y llun mae Jonsi yn cyflwyno tystysgrif i'r genod am eu gwaith rhagorol ar y diwrnod.

**Priodas Arian**
Llongyfarchiadau i Wendy a Geraint Jones, Cefn y Bryn, ar ddathlu eu priodas arian ym mis Medi.

## CAPEL BETHANIA BETHESDA

**Hydref**
20: Parch. Gwynfor Williams

**Tachwedd**
03 Y Parch. Tefor Jones
17 Y Parch Gwynfor Williams

**Oedfaon am 5.30**

**Croeso Cynnes i Bawb**

## Braichmelyn

**Rhiannon Efans,**
Glanaber, Pant, Bethesda
☎ **600689**

**Profedigaeth**
Cydymdeimlwn â Mr a Mrs John G. Jones, Tanygadlas Isaf, a Duncan, yn eu profedigaeth o golli mam Bronwen, mam-yng-nghyfraith a nain annwyl iddynt, ym Mangor.

Anfonwn ein cydymdeimlad â Tomos a'r teulu, 5, Tanygadlas, a Gwyn a'i deulu yntau yn 13 Gernant, hwythau wedi colli nain a hen-nain. 'Rydym yn meddwl amdanoch i gyd.

Anfonwn ein cofion at bawb sy'n wael neu'n cwyno efo'r annwyd sydd o gwmpas.

Cofiwch anfon eich newyddion i'r gohebydd, Rhiannon Ifans, os gwelwch yn dda.

## Rachub a Llanllechid

**Dilwyn Pritchard,**
Llais Afon, 2 Bron Arfon,
Rachub LL57 3LW
☎ **601880**

**Ysbyty**
Bu nifer o drigolion yr ardal yn derbyn triniaethau mewn gwahanol ysbytai dros yr wythnosau diwethaf.
Anfonwn ein cofion atynt a gobeithio y byddant yn gwella'n fuan; yn eu plith mae Melanie Tugwell, Tŷ Capel Carmel, Michael Williams, Lôn Groes, Christine Jones, Yr Hen Ysgol, Alice Jones, Tan y Garth a William Roberts, Foel Ogwen. Croeso adref i'r Cynghorydd Pearl Evans wedi llawdriniaeth mewn ysbyty yn Lerpwl yn ddiweddar – gobeithiwn eich bod yn dal i wella.

**Damwain**
Cafodd Mrs Margaret Roberts, Yr Hen Ysgol, ddamwain pan syrthiodd a thorri ei hysgwydd. Brysiwch wella.

**Pen-blwydd Hapus**
Bu dathlu mawr yn Foel Ogwen yn ddiweddar wrth i Mrs Edith Roberts (Corbri) ddathlu ei phen-blwydd yn 90 oed. Yn wreiddiol o Gasnewydd, fe symudodd i'r ardal dros 70 o flynyddoedd yn ôl ar ôl cyfarfod ei gwwr, Harold, yn y De, Ganwyd deg o blant iddynt ar fferm Corbri. Symudodd Mrs Roberts i Foel Ogwen i fyw wedi marwolaeth Harold. Bu parti yn y Clwb Criced lleol gyda mwyafrif y teulu yn bresennol. Methodd William â bod yno gan ei fod yn yr ysbyty.

Dymuna Edith (Corbri) Roberts, 4, Foel Ogwen, ddiolch i'r teulu a ffrindiau am yr arian, y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd wrth ddathlu ei phen-blwydd yn 90 oed ar Medi 13. Diolch hefyd i'r teulu am y wledd a gafodd yn y Clwb Criced, Bethesda.

**Pen-blwydd Hapus**
Dymuna teulu a chyfeillion Rheinallt Davies, Hen Barc, ben-blwydd hapus a llawer o lwyddiant iddo yn y dyfodol. Bydd Rheinallt yn 21 mlwydd oed ar Hydref 20.

Mae'n wyneb cyfarwydd i wylwyr y gyfres deledu Rownd a Rownd ers rhai blynyddoedd bellach, a da cael adrodd y bydd yn ymddangos yn y gyfres newydd.

**Diolch**
Dymuna Mrs Augusta Williams, Bron Arfon, ddiolch o galon i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am eu haelioni ar achlysur dathlu ei phen-blwydd yn 80 oed.

**Y Nadolig**
Ydi, mae o'n agosau! Eleni dymuna Eifion ac Ann, Tŷ Mwyn, ddatgan na fyddant yn anfon cardiau Nadolig. Maent am ddymuno Nadolig Llawen i bawb. Byddant yn anfon cyfraniad at gronfa'r Hosbis lleol.

**Cydymdeimlo**
Anfonwn ein cydymdeimlad at Megan, Deri a Cynon, Sychnant, ar farwolaeth chwaer Megan yn ardal y Bala ddiwedd mis Awst.

**Clwb Hanes**
Bydd y Clwb Hanes yn cyfarfod am 7 o'r gloch ar nos Fercher, Hydref 23, yn Festri Carmel. Dewch yn llu, pwnc y noson fydd Siopau Lleol a gwahoddir chi i ddod ag unrhyw luniau neu atgofion sydd gennych i ysgogi sgwrs a thrafodaeth ar y mater..

**Profedigaeth**
Wrth I'r Llais fynd i'r wasg daeth y newyddion am farwolaeth William Hughes (Bil Sowth), Bron Bethel. Pob cydymdeimlad â'i wraig Margaret a'i holl deulu.

# Capel Carmel, Llanllechid

**Diolch**
Derbyniwyd rhodd gan Mrs Stella Davies, Bronnydd Isaf, a'r teulu tuag at waith yr Ysgol Sul, er cof am ei phriod Wyn Davies. Diolch yn fawr i'r teulu am eu rhodd caredig. Diolch hefyd i Ann a Raymond Tugwell am roi cyfran o'r arian a godwyd ganddynt ar y daith gerdded flynyddol. Derbyniwyd £400 at weithgareddau'r chwiorydd a phrynwyd rhewgell a phopdy meicro. Bydd rhain yn hwyluso cryn dipyn ar waith y merched yn y gegin.

**Bedydd**
Un o blant ffyddlon yr Ysgol Sul yw Elin, ac fe'i bedyddiwyd hi a'i brawd bach Siôn gan y Parch. Geraint Hughes. Mae Stephanie, Eryl, Elin a Siôn yn byw yn Rhes Penrhyn, Bethesda. Bedyddiwyd hefyd Gwion, brawd Llifon, gan y Parch. Geraint Hughes. Mae Gwion a Llifon yn blant i Conrad a Marian Davies, Carneddi. Pob bendith i'r plant.

**Helpu Haiti**
Yn dilyn cynnal Te Bach ym mis Medi codwyd £312 at Apêl Haiti Undeb yr Annibynwyr. Diolch i'r merched am drefnu a gweini wrth y byrddau. Gwerthwyd peth o waith gwnio a gweu rhai o'r merched yn ystod y prynhawn. Diolch am eich cefnogaeth.




**Elen wrth y bwrdd gwerthu**

**Yr Ysgol Sul**



**Mali a Ffion Rowlinson gyda phlant yr Ysgol Sul**
Daeth Mali Parry Owen i'r Ysgol Sul i adrodd ei hanes fel athrawes gwirfoddol yn Hondiwras. Dangosodd luniau o blant yr ysgol i ni. Roedd yn ddigalon iawn clywed fod llawer iawn o'r plant yn amddifad, gan fyw mewn hostel ger yr ysgol. Yno hefyd yr oedd cartref Mali tra bu yn Hondiwras. Diolch iddi am ddod atom ni i adrodd yr hanes. Dymuniadau gorau iddi yn ei hastudiaethau ym Mhrifysgol Glasgow.

## CAPEL CARMEL

**Hydref**
20 Parch. Ddoctor Siôn Aled – 2.00pm
27 – Cyfarfod Ymddeol ein Gweinidog 2.00pm
**Tachwedd**
03 – Oedfa 2.00pm neu 5.00pm
10 – Mr Dafydd Iwan – 5.00pm
17 – Parch. Gwyndaf Jones – 5.00pm

**Croeso Cynnes i Bawb**

Yr Ysgol Sul am 10.30 y bore
Dwylo Prysur, nos Wener am 6.30pm


Te Bach, Dydd Llun, Hydref 21, 2.30 hyd 4.00pm
**Croeso cynnes i bawb.**

Llongyfarchiadau i Hannah Wyn Ellis ar ennill tri rhuban yn Sioe Geffylau a Merlod Llanddona. Dyma'r tro cyntaf iddi gystadlu mewn sioe.



Mae Hannah yn ferch i Lliwen a Dylan ac yn wyres i Mair a Dafydd Griffiths, 13 Tan y Garth, Rachub.

Llongyfarchiadau hefyd i Caio Griffiths ar ennill cystadleuaeth ar gyfer babis a drefnwyd gan bapur newydd lleol.



Mab i Siôn a Jasmine yw Caio, ŵyr i Colin Rowlands a gor-ŵyr i Julie a David Rowlands, 3 Tan y Garth.

## CAPEL BETHEL

**Gwasanaethau:**
**Hydref**
20 Mr Alun Wyn Rowlands
27 Parch. Dafydd Job
**Tachwedd**
03 – Parch. Eleri Lloyd Jones
10 – Gweinidog
17 – Mr Islwyn Hughes
24 – Parch. Huw Pritchard.

**Oedfaon am 2.00pm.**
**Croeso cynnes i bawb.**

**Llongyfarchiadau i Hayley a Rhydian ar eu priodas.**



"Diolch o galon i bawb am eich caredigrwydd yn ystod cyfnod ein priodas." - Hayley a Rhydian

Clwb Hanes Rachub a Llanllechid

Festri Carmel
Nos Fercher
23 Hydref
7.00 o'r gloch

Pwnc Trafod
Siopau lleol

Dewch â gwybodaeth a lluniau

# Nant Ffrancon

## Capel Nant y Benglog

**Gwasanaethau:**
**Hydref**
20 Dafydd Wyn Williams 2.00
27 Tomos Jones 2.00
**Tachwedd**
03 Cledwyn Williams 2.00
10 Y Parch. Gerwyn Roberts 2.00
17 Parch. John Lewis Jones 2.00
24 Parch.Dafydd Ll Jones 2.00

**Oedfaon am 2.00pm.**
**Croeso cynnes i bawb.**

# Y Gerlan

**Ann a Dafydd Fôn Williams,**
14/4 Stryd y Ffynnon, Gerlan
☎ **601583**

**Profedigaeth**
Rydym yn cydymdeimlo'n fawr gyda Vera a Keith Hughes, a'r teulu, Ciltrefnus, yn eu profedigaeth o golli chwaer Vera, y ddiweddar Mair Roberts, oedd yn trigo yn Llanrug.

**Llongyfarchiadau**
Rydym yn llongyfarch Myfanwy Owen, Stryd y Ffynnon, ar ddod yn nain unwaith eto. Ganed merch fach, Evie Rose, i Kerry a David, sy'n byw ym Mraichmelyn. Rydym yn sicr fod y brawd mawr. Ethan John, wedi gwirioni cael chwaer fach. Pob hwyl i chi i gyd!

**Ysbyty**
Rydym yn estyn ein cofion at Margaret Williams. Tan Treflys, sydd yn Ysbyty Gwynedd. Dymuniadau gorau am wellâd llwyr a buan gan bawb o'r ardal ichi, Margaret.

**Cydymdeimlo**
Rydym yn estyn ein cydymdeimlad at Tecwyn Hughes, Ffordd Gerlan, yn ei brofedigaeth o golli ei frawd yng nghyfraith, y diweddar Dei Parry, Mynydd Llandygai.

**Ar Sioe Tudur Owen**
Roedd un o drigolion y Gerlan yn westai ar raglen Tudur Owen yn ddiweddar. Braf oedd gweld Linda Brown ar y rhaglen a'i chlywed yn siarad yn hynod ddiddorol am ei bywyd a'i gwaith. Difyr iawn, Linda, a da iawn!

**Y Caban**
Bydd Cyfarfod Blynyddol y Caban yn cael ei gynnal yn y Caban ar 19 Tachwedd am 7.00 yr hwyr. Estynnwn ein croeso i bawb. Byddai'n braf iawn gweld aelodau newydd, gan nad oes llawer ohonom ar y Pwyllgor bellach, ac mae gwir angen gwaed newydd arnom.

# Llandygái

Ethel Davies, Pennard,
Llandygái ☎353886

**Cleifion**
Rydym yn anfon ein cofion a'n dymuniadau da at gymdogion a ffrindiau sydd heb fod yn dda eu hiechyd yn ddiweddar. Rhai yn cwyno ers tro byd, rhai wedi bod yn yr ysbyty neu'n cael gofal annwyl a ffyddlon yn eu cartrefi: Ernie a Nerys Coleman, Beryl a Jim Hughes, Cassie Tindall, Betty Williams a Dorothy Proudley-Williams. 'Roeddem yn falch iawn o ddeall for Mrs Beryl Hughes, Yr Elan, wedi cael dod adref o'r ysbyty ar ôl ei llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd ym mis Mehefin. Mae Jim a'r plant wrth eu bodd yn eich cael yn ôl gartref, Beryl, 'roedd yn amser digon poenus iddynt hwythau hefyd – brysiwch wella.

**Bingo**
Nos Fawrth, 17 Medi, bu Bingo yn Neuadd Talgai er budd y neuadd. Diolch o galon i Pauline a Raymond am drefnu'r noson ac hefyd i'r merched yn y gegin am y baned, heb anghofio pawb arall a ddaeth i ymuno yn yr hwyl.
Bydd dau Bingo ym mis Hydref, y cyntaf ar nos Fawrth, 15 Hydref, a'r ail er budd Sant Tegai wythnos yn ddiweddarach ar 22 Hydref am saith yr hwyr. Croeso cynnes i bawb.

**Bore Coffi**
Ar fore Mercher, 25 Medi, cawsom Fore Coffi yn Neuadd Talgai er budd elusen MacMillan. Diolch i Mrs Mair Leverett a'i ffrindiau am drefnu popeth – 'roedd y baned, teisennau a'r sgwrsio yn plesio pawb.

**Diolch**
Bydd yr eglwys agored yn dod i ben ar ddiwedd y mis hwn tan y Gwanwyn nesaf efallai. Mae ein dyled yn fawr i bawb a fu ar ddyletswydd am y saith mis diwethaf, yn bentrefwyr ac aelodau eglwysig. Yn bennaf hoffem ddiolch i Mr Peter Bullen a Mr Dei Edwards a fu'n gyfrifol am yr eglwys ac yn eu tro yn tacluso'r fynwent ar ddiwrnodau chwilboeth yn ystod yr haf.

## Eglwys Sant Tegai

Ar ddydd Sul, 8 Medi, yn ei chartref, 16 Greenwood Avenue, Bangor (Bryn, Llandegai, gynt), bu farw Mrs Anne Eluned Hartleb yn 79 mlwydd oed. Cynhaliwyd ei gwasanaeth angladdol yn Eglwys Sant Tegai ar ddydd Iau, 12 Medi, dan ofal y ficer, y Parch. John Matthews, a Mr Martin Brown wrth yr organ. Claddwyd ei gweddillion ym mynwent Coetmor, Bethesda. Cydymdeimlwn â'r teulu oll yn eu profedigaeth chwerw.

**Cleifion**
Dymunwn anfon ein cofion cynnes at bawb sydd yn wael ac wedi eu caethiwo i'r tyy ers tro bellach – Mrs Jane Couch, Mr Gwynne Edwards, Mr Harry Gross a Mrs Olwen Latham. 'Rydym yn colli eich cwmni o Sul i Sul gan ichwi fod mor ffyddlon yn y gorffennol.

**Pen-blwydd**
Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Miss Nerys Jones a fydd yn dathlu ei phen-blwydd ar ddydd Llun, 21 Hydref. Gobeithio y bydd yn ddiwrnod wrth eich bodd, Nerys, ac y cewch lond trol o gardiau ac anrhegion. Diolch i chwi am wneud eich gorau i'r eglwys bob amser, cofiwch fod pawb yn eich gwerthfawrogi.

**Pen-blwydd Arbennig**
Llongyfarchiadau i Ben Cramb, mab Suzy a Richard ac wwyr i Hefina Chamberlain, fydd yn dathlu ei ben-blwydd yn 18 oed ar 19 Hydref. Mae Ben a'r teulu yn byw yn Co. Durham gyda'i rieni, ei frawd Rory a'i chwaer Lizzie – hwyl fawr i chwi i gyd ar y diwrnod.

**Te Bach**
Aeth rhai o aelodau Sant Tegai i'r Te Bach yn Eglwys y Santes Fair, Tregarth ar ddydd Llun, 16 Medi, ac ni siomwyd neb y tro hwn eto; 'roedd yn brynhawn difyr iawn. Diolch i Sue, Rosemary a Rhian am wneud y teisennau blasus a gweini arnom mor dda ac i'r Ficer am fod yng ngofal y raffl. Cawsom gwmni Ceri hefyd, 'roedd hi druan bach wedi gorfod mynd i'r ysgol ond daeth Chris â hi yno cyn y diwedd.

**Gŵyl Diolchgarwch**
'Roedd Eglwys Maes y Groes wedi ei haddurno'n hyfryd ar gyfer ei Gwwyl Ddiolchgarwch ar fore Sul, 22 Medi. Y Parchedig John Matthews oedd yn gweinyddu a Mr Geraint Gill oedd yr organydd. Daeth nifer dda i'r gwasanaeth, yn hên ac ifanc, a'r croeso fel arfer yn gynnes iawn.

**Gwasanaeth Undebol**
Daerh cynulleidfa dda i'r gwasanaeth ar fore Sul, 29 Medi, yn Eglwys y Santes Fair, Tregarth. 'Roedd y Parchedig John Matthews yn gwasanaethu a Keith yn traddodi'r bregeth. Linda a Keith oedd yn gofalu am y canu a dwy ferch fach yn canu yn hwyliog iawn a phawb yn uno yn y cytgan.

Ymlaen wedyn, 39 ohonom, i westy'r Bulkeley, Biwmaris, i gael cinio a phawb wedi eu plesio tu hwnt. Edrych ymlaen at fynd yno eto! Diolch o galon i Phyllis, Muriel a Bethan am drefnu popeth ar ein cyfer: y 'menu', a'r raffl, a diolch i staff y gwesty y rhai a fu'n gweini arnom, 'roeddant mor broffesiynol a chwrtais drwy'r adeg.

# Talybont

**Neville Hughes,**
14 Pant, Bethesda
☎ **600853**

**Geni**
Llongyfarchiadau i Llinos a Gamel, 61 Bro Emrys ar enedigaeth merch fach, Seren Medi, ar 24 Medi. Mae Tomos a Cemlyn wedi gwirioni wedi cael chwaer fach.

**Diolch**
Dymuna Rita a Hughie, 7 Lộnddwr, ddiolch i bawb am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniwyd ganddynt ar achlysur dathlu eu priodas aur ar 5 Hydref. Diolch yn fawr.
Noson Goffi Wych
Dymuna Enid Lloyd Davies, Bryn Derwas, ddiolch o waelod calon i bawb a weithiodd ac a gefnogodd y Noson Goffi a drefnwyd ganddi yn Festri Bethlehem ar 27 Medi. Diolch i bawb am eu haelioni a'u caredigrwydd. Roedd yr elw a godwyd tuag at elusen Macmillan yn anhygoel – sef £1,115.00. Diolch yn fawr iawn!

## Eglwys Maes y Groes, Talybont

Ar fore Sul, 22ain o Fedi, cynhaliwyd ein gwasanaeth Diolchgarwch. Arweiniwyd y gwasanaeth gan ein ficer y Parchedig John Matthews gyda Geraint Gill yn cyfeilio. Diolch i bawb am eu cymorth i addurno'r Eglwys mor hardd.

Ar y Sul canlynol cynhaliwyd Diolchgarwch Eglwys y Gelli, Tregarth. Daeth aelodau o'r dair Eglwys gyda'i gilydd i ddathlu'r achlysur. Y Parchedig John Matthews gymerodd y gwasanaeth gyda Keith Irons yn traddodi'r bregeth. Yn dilyn y gwasanaeth cawsom ddathlu gyda chinio blasus yng ngwesty'r Bulkeley, Biwmares. Diolch i Phyllis Davies am drefnu'r wledd.

Croeso gartref i Hefina Watts yn dilyn triniaeth ar ei chlun yn Ysbyty Gwynedd ddechrau'r mis. Da deall ei bod yn gwella'n foddhaol.

Parhau i gael ei gynnal ar yr ail Sul o'r mis am ddau o'r gloch yn yr Ysgoldy mae "Cafe Church". Croeso cynnes i bawb.

## Capel Bethlehem

**Ysgol Sul**
Bu criw o blant yr Ysgol Sul yn mwynhau eu hunain ym Mhlas Ffrancon ar fore Sul, 6 Hydref.

**Aelodau'n Dathlu**
Llongyfarchiadau i Hughie a Rita Hughes ar ddathlu eu Priodas Aur ar Sadwrn 5 Hydref, ac i Llew ac Enfys a ddathlodd 65 mlynedd o fywyd priodasol ar 6 Hydref.

## Capel Bethlehem

**Cyhoeddiadau**

### Hydref

**20** Oedfa Ddiolchgarwch Deuluol gyda phlant yr Ysgol Sul.
**27** Dim oedfa yma – Oedfa Ffarwel y Gweinidog yng Ngharmel Llanllechid am 2.00;

### Tachwedd

**03** Parchedig Iwan Llewelyn Jones, Porthmadog;
**10** Parchg. Gwyndaf Jones ;
**17** Parchg. Harri Parri, Caernarfon ;
**24** Parchg. John Owen, Rhuthun.

**Oedfaon am 2.00 oni nodir yn wahanol. Croeso cynnes i bawb.**

# Glasinfryn Caerhun

**Marred Glynn Jones**
2 Stryd Fawr, Glasinfryn,
Bangor LL57 4UP
**01248 351067**
Marred567@btinternet.com

**Pen-blwydd Hapus**
Anfonwn ein dymuniadau da at Mrs Elizabeth Evans, Penhower Uchaf. Fe wnaeth hi ddathlu pen-blwydd arbennig ar 20 Medi.

**Clwb Cant y Ganolfan - Medi**
£20 - 88 - Elsi Prytherch
£10 - 70 - Susan Roscoe
£5 - 84 - Gareth Roberts
£5 - 2 - Jean Smith

**Sefydliad y Merched**
Wythnosau braf yr Haf wedi pasio a dyma ni yn ein cyfarfod cyntaf o'r Hydref dan lywyddiaeth Mrs Sarah Flynn ar Fedi 11eg. Croesawyd yr aelodau ac estynnwyd croeso cynnes i'n gwestai, Sandra Ryst, gwraig a fu'n gweithio fel Is-gennad yn Kuala Lumpur am ddeng mlynedd. Dilyn gwaith ei gŵr gyda'u tri plentyn wnaeth Sandra a chael swydd yn y Llysgenhadaeth Brydeinig, yn yr adran drwydded deithio.

Gofalai am bob preswylydd Prydeinig mewn trafferthion e.e. colli pasbort, neu oedd wedi bod mewn damwain neu wedi dioddef profedigaeth, weithiau wedi eu rhoi mewn cell am resymau gwahanol.

Roedd yn ymwybodol o'r trafferthion oedd yr uchod yn achosi a bu llawer o'i gwaith yn ymwneud â theuluoedd gartref yma ym Mhrydain. Fel consiwlar byddai'n gofalu bod cymorth ar gael ymhen pedwar awr ar hugain. Mae'n berson diddorol a hapus iawn a diolchwyd iddi gan Carol Singleton.

Cafwyd paned o dan ofal Jocelyn Bowen a Liz Bestwick a rhoddwyd y raffl gan Grace Mudd. Cawn gyfarfod eto ym mis Hydref a chroeso cynnes i bawb.

# Pentir

**Anwen Thomas,**
Min yr afon
11 Rhydygroes, Pentir
☎ **01248 355686**

## Eglwys Sant Cedol

**Clwb 100 Mis Medi 2013**

**1af Rhif 40**
Nesta Barton, Rhiwen
**2ail Rhif 50**
Eirwen Williams, Rhiwlas
**3ydd Rhif 23**
Ann Williams, Glasinfryn

**Gwellhad**
Anfonwn ein cofion fel Eglwys at Tony Jones, Bron Y Waun, Waun Pentir , sydd wedi treulio cyfnod yn yr ysbyty yn ddiweddar. Dymunwn wellhad buan i chwi Tony.

**Cydymdeimlad**
Anfonwn ein cydymdeimlad at Mrs Myra Jones, Bron Y Waun, Waun Pentir a Mrs Janet Thomas a'r teulu yn eu profedigaeth o golli brawd, gŵr a thad annwyl, sef y ddiweddar Mr Richard Thomas, Diddosfa, Llanfairfechan, gynt o Tŷ Newydd, Pentir.

**Noson Caws a Gwin**
Nos Sadwrn 21 Medi cafwyd noson hwyliog iawn o Gaws a Gwîn yn Neuadd Bentref Rhiwlas.Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

**Ffair Nadolig**
Bydd ein Ffair Nadolig eleni yn cael ei chynnal yn y Ganolfan, Glasinfryn, ar brynhawn Sadwrn y 30 o Dachwedd am 2 y.h. Bydd amrywiol stondinau a Raffl. Croeso cynnes i bawb.

**Gwasanaethau'r Sul**

**Hydref**
20 Cymun Bendigaid 9.45am
27 Boreol Weddi 9.45am

**Tachwedd**
03 Cymun Pawb 9.45am
10 Boreol Weddi Sul y Coffa 9.45
17 Cymun Bendigaid 9.45am
24 boreol Weddi 9.45am

**Ar Werth**

**Drws Garej Metel 7' X 7'**

**(I fyny a throsodd)**
**£100**
**Rhaid i chi ei gasglu**

**Ffôn 07717425923**

# Rhiwlas

**John Huw Evans,**
30 Bro Rhiwen, Rhiwlas
☎**352835**

**Llongyfarchiadau**
Derbyniodd tri o'r pentref wobrau yn Seremoni Cyflwyno Gwobrau Ysgol Dyffryn Ogwen a gynhaliwyd yn yr ysgol ar Fedi 18.

**Enfys Irvine** – Dylunio a Thechnoleg; Gethin Williams – Mathemateg a hefyd Gwyddoniaeth. Ysgoloriaeth Cyngor Cymuned Bethesda – Alun Hughes Jones. Bwriad Enfys yw treulio blwyddyn yn Seland Newydd. Mae Gethin am oedi am flwyddyn cyn mynd ymlaen â'i addysg tra bod Alun wedi cychwyn ar gwrs yng Ngholeg Menai. Mae'r tri yn gyn-ddigyblion o Ysgol Rhiwlas. Llongyfarchiadau iddynt ar eu llwyddiant a phob dymuniad da i'r dyfodol.

**Dwylo Prysur**
Mae'n werth oedi am ychydig wrth fynd heibio i'r ysgol y dyddiau hyn a chraffu ar y mosaic a godwyd ar wal yr adeilad. Mae oddeutu saith troedfedd o uchder ac yn waith a wnaed gan blant yr ysgol. Dengys chwarelwr wrth ei waith yn hollti llechen yn y chwarel. Mae'n amlwg i'r lliwiau gael eu dethol yn ofalus gan eu bod yn gyfuniad o'r llwydlas a'r cochni sy'n nodweddiadol o lechi chwarel y Penrhyn,

Bu adeiladu'r mosaic nid yn unig yn ymarferiad o gynllunio, creu a chydweithio i'r plant ond hefyd yn gyfle i'w dysgu am dwf Rhiwlas fel pentref chwarelyddol yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Hynny yn ei dro gobeithio yn eu cymell i fagu gwreiddiau yn y fro, boent wedi eu geni yma ai peidio.

Gellir dychmygu rhai o'r plant hyn yn myned heibio'r ysgol ymhen blynyddoedd ac wrth sylwi ar y mosaic yn dweud gyda balchder, "Fe wnes i helpu i wneud hwnna".

**Cynorthwyo elusen**
Cynhaliwyd Bore Coffi yn Nôl Frwynog, Caeau Gleision, ar 27 Medi fel rhan o ymgyrch 'Bore Coffi Mwya'r Byd' gan yr elusen Macmillan. Codwyd y swm o £250 ar y bore a hoffai Ann ddiolch o galon i bawb a gyfrannodd mor hael.

**Dymuno Gwellhad**
Mae'n dda gweld Tony Jones, 9, Bron y Waun, gartref yn dilyn llawdriniaeth yn Ysbyty Broadgreen Lerpwl. Hyderwn yn bydd wedi gwella a chryfhau erbyn i'r Llais ymddangos ganol Hydref.

Nid yw Eric Jones, 20, Bro Rhiwen, wedi bod yn dda ers rhai wythnosau, gan dreulio cyfnodau yn yr ysbyty. Gobeithiwn y bydd yntau yn gwella'n llwyr a hynny'n fuan.

Syrthiodd Heulwen Evans yn ei chartref, 30, Bro Rhiwen, ganol Medi a thorri ei braich. Mae'n parhau yn Ysbyty Eryri, Caernarfon, lle mae'n derbyn pob gofal.

**Profedigaeth**
Anfonwn ein cydymdeimlad llwyraf at Myra Jones, 6, Bron y Waun. Bu farw Richard (Dic) ei brawd, oedd â'i gartref yn Llanfairfechan, yn Ysbyty Gwynedd ar Hydref 1af.

**Merched y Wawr**
Cafwyd cyfarfod cynta'r tymor ar Fedi'r 10fed a chroesawyd yr aelodau gan Iona, llywydd y noson. Llongyfarchwyd Annest ar ddod yn nain unwaith eto ac am lansio nofel arall, 'Canu'n y Co', a hefyd 'roeddem yn falch o glywed am lwyddiant Mina, wyres Annest, yn yr arholiadau TGAU. 'Roeddem fel cangen yn ymfalchio yn llwyddiant ein cyn-lywydd, Bet, enillodd wobr Goffa Daniel Owen am y nofel 'Craciau'. Dymunwud yn dda i Nel, wyres Linda, pan ddaw amser y llawdriniaeth.

Gwestai'r noson oedd Anna Pritchard o Waenwen a chawsom beth o'i hanes. Bu'n astudio Celf ym Manceinion gan arbenigo mewn gwehyddu ac 'roedd ganddi enghreifftiau godidog o'i gwaith. Yn dilyn ennil gwobr o £1000 yn yr Eisteddfod Genedlaethol aeth i Halifax i astudio mwy am wehyddu traddodiadol. Cafodd arddangosfa yn Oriel Glyn y Weddw ac yn Oriel Tegfryn; yn ogystal mae'n artist preswyl mewn ysgolion. 'Roedd pawb o'r farn inni gael noson agoriadol hynod o ddifyr a lliwgar! Diolchwyd iddi'n swyddogol gan Linda.

Megan a Linda oedd yn gyfrifol am y te a'r raffl a diolchwyd iddynt. Mis nesaf disgwylir Gethin Davies atom i sôn am ei waith gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.
Croeso i aelodau hen a newydd.

**Clwb Rhiwen**
Yng nghyfarfod cynta'r tymor newydd ar Fedi'r 4ydd buom yn trafod y rhaglen am y flwyddyn ac yna cawsom gwis diddorol gan Ann a hi hefyd oedd yn gyfrifol am y baned a chawsom deisen a ddaeth Gareth i ni – blasus iawn hefyd!

Anfonwyd ein cofion at yr aelodau oedd yn methu â bod yn bresennol.

Ar Fedi 18 cawsom bnawn cartrefol yn hel atgofion a gwrando ar farddoniaeth. Dilys oedd yn llywyddu'r cyfarfod ac anfonwyd ein cofion at Heulwen sydd ar y funud yn Ysbyty Eryri yng Nghaernarfon. Pam a Dee oedd yn gyfrifol am y te a'r raffl a diolchwyd iddynt.

Mae'r clwb yn cyfarfod am 2 o'r gloch bob yn ail Ddydd Mercher, croeso i aelodau hen a newydd.

# Mynydd Llandygái

**Theta Owen.**
Gwêl y Môr,
Mynydd Llandygai.
☎ **600744**

**Llwyddiant academaidd**
Llongyfarchiadau i Ashley Cooke, Cwm Hyfryd, Gefnan, a lwyddodd yn ei arholiad Cymraeg TGAU i Ddysgwyr eleni. Cafodd ei wobrwyo ym Mhabell y Dysgwyr yn Eisteddfod Genedlaethol Dinbych ym Mis Awst a chyflwynwyd y Dystysgrif iddo gan Betsan Powys, Pennaeth Radio Cymro. Llongyfarchiadau Ash.

**Profedigaeth**
'Rydym yn cydymdeimlo gyda Mrs Megan Parry ac Alwena yn eu profedigaeth fawr o golli Mr Dei Parry. Gwwr, tad, taid a hen-daid annwyl a charedig, bydd chwith i bawb yn y pentref ar ei ôl.

Dymuna Mrs Megan Parry, Alwena a'r teulu ddiolch i bawb am eu caredigrwydd a phob arwydd o gydymdeimlad yn eu profedigaeth o golli Mr Dei Parry, Penrhiw.

Diolch i'r Parchedig Hugh John Hughes a'r Parchedig Dewi Morris am eu gwasanaeth; i Carys O'Connor yr organyddes; i gymdogion, doctoriaid, nyrsus, gofalwyr Marie Curie a'r Hosbis. I ffrindiau i gyd am y galwadau ffôn, y cardiau a'r blodau.

Diolch arbennig i Gôr y Penrhyn, yr oedd Dei wedi bod yn aelod ohonno am flynyddoedd, a'r côr yn agos iawn at ei galon.

Diolch i siop gig G. Williams, Bangor, a'r staff oedd i gyd yn y gwasanaeth, wedi cau'r siop. Hefyd am y lluniaeth oedd yn rhodd ganddynt.

Diolch i'r merched am eu gwaith yn gofalu am y tê a'r lluniaeth, ac i Stephen Jones am ei wasanaeth a'i drefniadau trylwyr.

**Clwb y Mynydd**
Cawsom brynhawn braf yn y Clwb gyda Marie Curie yn siarad am y cymorth sydd i'w gael mewn gwaeledd. Mae croeso i unrhyw un sydd am ymuno â'r clwb ddod i'r cyfarfodydd sydd yn cael eu cynnal yn y Neuadd ar y trydydd dydd Mercher o bob mis.

# Dathlu'r Cant



Bu i Mary Gweneth Griffith, Gors yr Eira, ddathlu ei phen-blwydd yn gant oed ar Hydref 5ed ymysg 90 o aelodau o'i theulu a'i ffrindiau. Diwrnod hapus dros ben a Mary Gweneth yn mwynhau'r cwmni, y blodau, yr anrhegion, yr arian tuag at Gymdeithas Alzheimer,y cardiau a'r siampên!

Yn ogystal ag Einir (ei merch) a Myrddin (ei mab o Gaerdydd) a'u partneriaid roedd tri o'i phedwar ŵyr yn bresennol - William, Angela a Paul. Nid oedd David Griffith a'i deulu'n gallu dod o Awstralia. Roedd 8 o'i gor wyrion yn bresennol hefyd. Yn ystod y parti cafwyd datganiad o ganeuon yn cynnwys Calon Lân, Ar Hyd y Nos ac Mae Hen Wlad Fy Nhadau, ac fe welwyd Mary'n canu'n llon gyda Chor Lleisiau'r Mynydd, gan fwynhau ei hun yn fawr iawn.

Diolch o galon i bawb a fu'n helpu i drefnu'r dathliad pwysig yma - yn enwedig Pat Moday Yates, Jean Pat Jessup a Tam yn y gegin. Ann Aspinall a wnaeth y gacen pen-blwydd, a chyflwynwyd blodau gan y Neuadd Goffa, Meddygfa Bethesda, Capel Amana a Gwasanaethau Cymdeithasol Ynys Môn. Diolch yn fawr i'r holl deulu a ffrindiau am eu haelioni hwythau.

## Eglwys y Santes Ann a'r Santes Fair

**Hydref**
20 Cymun Bendigaid
27 Boreol Weddi
**Tachwedd**
03 Gwasanaeth Teuluol
10 Cymun Bendigaid
Pob gwasanaeth i gychwyn am 9.45am

Diolch i bawb a gefnogodd y Bore Coffi yng Nghaffi Coed y Brenin – mae'n dyled yn fawr i'r Caffi am eu caredigrwydd. Daeth blwyddyn Clwb Cant mynwent St. Ann i ben unwaith eto. Diolch i bawb sy'n cyfrannu, ac os am ail-ymuno neu gyfrannu o'r newydd cysylltwch â Lynda Owen, 2, Bryniau Terrace, Mynydd Llandygái.

Er nad oes gennym ficer newydd ar yr eglwys eto, mae'r achos yn mynd yn ei flaen o dan ofal y Parchedig John Matthews, y Deon Gwlad. Diolchwn iddo am ei ofal drosom a phe bai unrhyw un am sgwrs, cysylltwch ag ef ar Bangor 364991.

Trist oedd clywed am farwolaeth Mr David Parry, Penrhiw, Arafon. Anfonwn ein cydymdeimlad cywiraf at ei briod, Megan, a'r teulu oll.

Bu sawl ymholiad am ail-ddechrau Ysgol Sul yn yr eglwys. Buasem yn falch iawn o gynnal cyfarfod plant unwaith eto a phe bai 8 i 10 o blant yn dangos diddordeb byddai modd ail-drefnu yn y Flwyddyn Newydd. Cysylltwch ag aelod o'r eglwys am fwy o wybodaeth.

# Tregarth

**Gwenda Davies,**
Cae Glas,
8 Tal y Cae, Tregarth
☎ **601062**

**Olwen Hills (Anti Olwen),**
4 Bro Syr Ifor,
Tregarth
☎ **600192**

**Genedigaeth**
Llongyfarchiadau i Nia a Gary Page, Bigglswade ar enedigaeth merch fach, Lili Wyn, ar Awst 7 ac i Tegryd a Rhian Hughes, 2 Godre'r Parc, Sling, am ddod yn Nain a Taid unwaith eto.

**Symud Tŷ**
Croeso mawr i'r gantores Helen Wyn (Tammy Jones) sydd wedi symud i'w chartref newydd , sef 10 Bro Derfel, Tregarth o Garneddi. Am flynyddoedd bu Helen yn gweithio a byw yn Seland Newydd. Mae'n dda ei gweld wedi setlo yn Nhregarth.

**Priodas**
Llongyfarchiadau i Siân , merch Tegryd a Rhian, 2 Godre'r Parc , a Christopher Hodson, mab David a Valerie Hodson, Deganwy ar achlysur eu priodas ar Fedi 7 yn Eglwys Santes Fair, Y Gelli, Tregarth.

**Cydymdeimlo**
Mae dau deulu wedi colli anwyliaid yn ddiweddar ac anfonwn ein cydymdeimlad llwyraf gyda chi yn eich hiraeth.

Mae Daniel a Bethan Crowe, a'r plant Luke ac Esme, Cilfynydd, Llety, Sling wedi colli tad Daniel oedd yn byw yn Penisarwaun.

Mae Anwen Griffiths, a'r hogiau Dylan a Hywyn hefyd wedi cael profedigaeth pan gollodd Anwen ei chwaer Myra Dale, yn enedigol o Gaernarfon ond yn awr yn byw ym Mhenarlâg.

Cofion at y ddau deulu.

**Llongyfarchiadau**
Llongyfarchiadau i Gethin Huw Williams, gynt o Ffordd Tanrhiw, ar ennill ei wregys du mewn Wu Shu Kuan, sef Bocsio Cic Tsieiniaidd . Mae Gethin bellach yn gymwys i ddysgu'r grefft i eraill.

**Ar y Radio**
Bore Sadwrn Medi 6 , ar y rhaglen 'Cofio' yng nghwmni John Hardy, cawfyd cyfle i glywed Gwyneth Williams, 2 Cerrig Llwydion, yn sgwrsio am ei gwaith yn ysgrifenyddes yr Adran Gymraeg ym Mhrifysgol Bangor , a hynny am gyfnod o 47 mlynedd. Record yn wir !

Yn ystod y cyfnod bu'n gweithio gyda nifer fawr o ddarlithwyr a phenaethiaid adran, ac yn eu mysg Melville Richards, Bedwyr Lewis Jones, Gwyn Thomas a Peredur Lynch. Gweithiodd yn agos gyda darlithwyr a myfyrwyr. At Gwyneth y deuai'r myfyrwyr yn gyntaf os oedd unrhyw drafferthion ac yn aml roedd ei chymorth hi yn datrys eu problem. Sgwrs ddifyr dros ben gan un a roddodd wasanaeth clodwiw i'r Coleg , ac yn arbennig i Adran Gymraeg Prifysgol Bangor.

## Capel Shiloh

**Yr Ysgol Sul 10.30**
**Oedfaon 5.00**

**Hydref**
13 Oedfa Deulu y Diolchgarwch am 10.30 yng nghwmni plant a phobl ifanc yr Ysgol Sul. Sgwrs gan y Dr Deri Tomos, Llanllechid.

20 Parchedig John Gwilym Jones, Peniel, Caerfyrddin

21 (Nos Lun ) Oedfa Diolchgarwch yng nghwmni'r Parchedig Philip Barnett Deganwy am 6.30

27 Islwyn Hughes, Llangoed
Tachwedd
03 Parch. Gwynfor Williams
10 Richard Lloyd Jones, Bethel
17 Parchedig Olaf Davies

**Ysgol Sul Shiloh**
Mae aelodau'r Ysgol Sul wedi bod yn brysur yn paratoi ar gyfer y Gwasanaeth Diolchgarwch. Bydd cyfle hefyd ar fore Sul, Hydref 6, i ymuno gydag Ysgolion Sul eraill y Dyffryn mewn bore o Wasanaeth a mwynhad yng Nghanolfan Plas Ffrancon, Bethesda.

Hyfryd yw clywed am lwyddiant pobl ifanc sy'n gysylltiedig â'r Ysgol Sul yn llwyddo yn eu arholiadau Ysgol a Choleg. Mae Tomos Morris Jones, Tryfan, Tal y Cae, sy'n ddisgybl yn Ysgol Tryfan, Bangor, bellach yn y chweched dosbarth; yr efeilliaid, Annest a Gwynfor Rowlinson, Bethesda a Rhiannon Gwyn, Capel Gorffwysfa, Sling, yn chweched dosbarth Ysgol Dyffryn Ogwen. Da iawn chi bob un. Hyfryd hefyd yw clywed am lwyddiant Mari Gwyn ac Emily Pritchard, y ddwy bellach wedi gadael Ysgol Dyffryn Ogwen ac yn wynebu cyrsiau academaidd.

**Profedigaeth**
Cafodd dwy o aelodau brofedigaethau yn ddiweddar ac anfonwn ein cydymdeimlad llwyraf at Bethan Crowe ac Anwen Griffiths.

# Ysgol Tregarth 1929

Mae'r llun yma wedi dod i law oddiwrth Mr. Raymond Dexter, 37, Tanrhiw;daeyh o hyd iddo ymysg papurau ei ddiweddar fam, Mrs Nesta Jones, o'r un cyfeiriad.

Mae'n cofio ei fam yn ysgrifennu enwau'r plant allan iddo ac yn dweud mai llun ydyw o Ysgol Tregarth oddeutu 1929 pan oedd hi'n ddeg oed – **hi yw'r 5ed o'r chwith yn yr ail res – Nesta Owen y pryd hynny.**



**Yn y llun:**
**Rhes uchaf o'r chwith:** Idwal Jones, Bryn Cocyn; Emyr Griffith, Braich; Eifion Williams, 39 Tanrhiw; Huw Roberts, Yr Efail; John Ivor, Dob; Eddie Bach (Griffith); Vincent Phillips; William John Pritchard, Hafoty.
Rhes nesaf: Huw Lloyd Pierce, Glasinfryn (Athro); Megan Owen, 21 Tan Rhiw; Doreen Thomas, Ffrwd Galed; Fiona Rowlands, Braich Talog; Nesta Owen, Tan Rhiw; Eleanor, Pennau'r Bronnydd; Eirwen Griffith, Garw; Lilian Ellis, Talgae; Olive Evans, Ffrwd Galed; Gracie Jones, 5, Tan Rhiw.

**Rhes nesaf:** Mary Owen Jones, 5, Tan Rhiw; Megan Wyn, Tanysgafell; Mair Roberts, Penygroes; Olwen Hughes, Penygroes; Sisy Hughes, Gwyndda, Tan Rhiw; Barbara Hughes, Dob; Mair Roberts, Bryn Cocyn; Buddug Roberts, Tan Rhiw.

**Rhes Flaen:**John Holland, Police House, Tregarth; Cyril Williams, Ffrwd Galed; Berti Williams, Tanrhiw; Wilfred Hughes, Erw Faen.

# Merched y Wawr, Cangen Tregarth


Bydd y gangen yn cyfarfod Nos Lun, Hydref 7, am 7.30, pan ddaw Cadi Iolen i siarad am ei gwaith yn Amgueddfa Lechi Llanberis. Byddwn yn falch iawn o groesawu aelodau newydd sbon ac aelodau sydd heb ymaelodi ers rhai blynyddoedd.

Mae rhaglen ddifyr wedi'i threfnu eleni a bwriad y gangen yw denu llawer mwy o ferched ifanc a rhai sydd ddim mor ifanc i'r gangen lewyrchus hon ! !

Ar nos Lun , Tachwedd 4, byddwn yn cynnal noson yng nghwmni Rhian Sinnott o Langefni, perchennog siop 'Cain ', sy'n arbenigo mewn gwerthu nwyddau ac anrhegion ar gyfer y 'Dolig , pen-blwydd ac achlysuron eraill. Dewch yn llu i fwynhau'r gwmnïaeth yn Festri Capel Shiloh am 7.30.

# Pwy Sy'n Cofio Ddoe?

## © Dr J. Elwyn Hughes



**Dyddiadur Digwyddiadau 1850-1854**

1850
• Roedd Eglwys Mormoniaid ym Methesda (yn hen Gapel Caersalem) a hynny tan 1856.
• Teulu J. Kenneth Hughes yn sefydlu busnes trefnu angladdau yn yr ardal. Daeth y busnes, a oedd yn nwylo J. Kenneth Hughes, i ben ym Mawrth 1976 ac fe'i trosglwyddwyd i berchennog newydd.
• Geni'r bardd John R. Jones (Ogwenydd).

1851
• Yn ôl Cyfrif y Llywodraeth (Religious Census 1851), roedd y presenoldeb yn y gwasanaethau yn Eglwys y Mormoniaid ym Methesda (yn hen Gapel Caersalem) ddydd Sul, Mawrth 30, 1851, fel a ganlyn: Bore: 34, Pnawn: 22, Hwyr: 80.
• Codi Ysgol Frutanaidd y Carneddi. Capeli Carneddi a Jerusalem yn gyfrifol am ei chynnal.
• Codi Ysgol Glanogwen ar dir a roddwyd yn rhodd gan Edward Gordon Douglas Pennant.
• Eisteddfod Gerddorol Bethesda.
• Ysgol Tyn-tŵr: 'yr ysgol fwyaf poblogaidd yn yr ardal'. Clwb Dillad yn cael ei redeg yn yr ysgol a phob plentyn yn cyfrannu. Yna'r Arglwydd Penrhyn yn cyfrannu swm cyfartal ac wedyn prynwyd dillad i'r plentyn (Hyn yn digwydd ym mhob un o'r ysgolion Cenedlaethol yn y ddau blwyf. Felly hefyd W. Francis yn ymweld â'r ysgolion i ddewis y bechgyn mwyaf i fynd i weithio i'r chwarel).

1852
• 10/11/1852: Yn ôl Hugh Derfel Hughes: 'Am 4 o'r gloch y bore, bu daeargryn yn dyfod o'r dwyrain ac yn teithio i'r gorllewin; crynai colofnau y ddaear ac yr oedd y tai ar y graig yn cyfranogi yn helaethach o'r ysgydwad na'r tai oeddynt ar y rhydd falurion'.
• Eisteddfod Gerddorol Bethesda.

1853
• Ionawr 1853: Agor Ysgol Glanogwen yng ngofal Robert Roberts, 'Y Sgolor Mawr'.
• 03/1853: Darlith yng Nghapel Jerusalem (am ddwy awr) gan y Parch. John Phillips, Bangor, ar y testun, 'Dylanwad yr Ymerodraeth Brydeinig ar y Byd'. Mynediad 3d (6d i'r galeri), 800 yn bresennol. Yr elw at Ysgol Frutanaidd Carneddi.
• Dywedodd Ernest Roberts fod 'rhyw gyffro cudd dros newid enw Bethesda pan sefydlwyd Bwrdd Lleol i'r ardal.
• Codi Ysgol Frutanaidd Rachub (y tir yn rhodd gan Mrs Margaret Jones, Bryn Pistyll). Adeiladwyd Ysgoldy a thŷ ar gost o £370. Y Methodistiaid Calfinaidd yn yr ardal oedd yn ei hariannu.
• Codi Capel Nant y Benglog (A). Yng ngolau lleuad y codwyd y cerrig i'w adeiladu ... gan dair gwraig grefyddol a rhai o ddynion y ffermydd cyfagos a dechreuwyd yr achos dan yr enw Bryn Gogwydd. Dyma'r Capel lleiaf yng Nghymru a chan mor fychan yw, bedyddiwyd ef, yn ddireidus ysgafn, gan naill ai Herber Evans neu William Rees (Gwilym Hiraethog), yn 'Exeter Hall.'
• Eisteddfod Gerddorol Bethesda.
• Codi Ysgol Bodfeurig (y tir yn rhodd gan Edward Gordon Douglas Pennant).

1854
• Penderfynwyd y dylai Ysgol Frutanaidd y Carneddi ddod dan nawdd y Llywodraeth.
• Pasio'r Bethesda Improvement Act.
• Dechrau ar y gwaith o godi Eglwys Glanogwen, ar draul yr Arglwydd Penrhyn.
• Cynnal Eisteddfod Bethesda.
• George Borrow yn dod drwy'r ardal yn ystod ei deithiau drwy Gymru.

**I'w barhau**

# Nyth y Gân

**Fferm Fynyddig yn Eryri**
Erioed bu'n frwydr galed yn y cwm
I gael cynhaliaeth ar ei erwau llwm;
Bu bywyd yno'n ddigon brwnt a main
Ond trechu llawer drycin wnaeth y rhain.

Fe ddeuai y tymhorau yn eu tro
A braf bryd hynny pan agorai'r clo
O weld y stoc yn pori'r blewyn glas
Gan fod ond 'chydig wair ar lawr y das.

Fe godai calon pawb yr amser hyn
Â'r ŵyn yn troi y caeau'n gyffro gwyn,
A bywyd newydd wedi dod i'r tir
Ar ôl y gaeaf oer a'r disgwyl hir.

Mis Mai a fyddai'r un i dorri mawn,
Roedd hon yn grefft ac yr oedd iddi ddawn,
Didonni gyntaf a gâi'r fawnog ddu
Cyn torri'r mawn a'i gario at y tŷ.

Cyfnodau prysur sydd i'w cael ar fferm
A syrthio'n daclus mae pob un i'w derm;
Mae sŵn gwahanol ar ddydd cneifio'n awr,
Sŵn gwellau aeth ers tro a'r criwiau mawr.

Chwaraeai'r tywydd ei ran bwysig iawn
I lenwi stumog dyn a'i stoc yn llawn,
Mor gyfnewidiol yw mewn uchel fan
A'r gelyn mwyaf i'r rhai hen a gwan.

Sawl llwynog bron â llwgu ddaw i'r clos
I browla ac i ladd yng nghanol nos;
Yn ystod dydd mae llofrudd yn ei phlu
Yn gwylio'r oen a'r famog wan mor hy.

Pladurwyr ddeuai o bob rhan o'r sir
I dorri'r mymryn gwair gynhyrchai'r tir;
Ar ddiwedd Awst fe welid chwech neu saith
Yn ddiwyd yn llafurio wrth eu gwaith.

Does yr un gwas na morwyn erbyn hyn,
Na chaseg wedd na chorddwr ger y llyn;
Dal yno mae'r Gymraeg a braf ei sŵn
Yn rhoi gorchymyn i bob un o'r cŵn.

**Brain y Bronnydd**
Mor fain yw brain y bronnydd, a'r eco'n
Dod o'u crawcian beunydd,
Yn eu sŵn rhyw newyn sydd
Yn hir uwch meini'r mynydd.

**Llygoden y Maes a'r Wenci**
Mae'r rhos yn hel i nosi, a siriol
Yw'r sêr wincia arni;
Un winc a ry y wenci
Ar hon droedia'i llwybrau hi.

**Dafydd Morris**

*Bryan Jones*

*Clirio tai*
*Mân-weithiau*
*Cludiant ysgafn*



*(Waeth pa mor fychan y dasg)*
Ffôn: 01286 673121
Ffôn Lôn: 07527634023

e-bost: bryanrajonesandson@yahoo.co.uk
www.facebook.com/bryanrajonesandson

Llais Ogwan 12

## CHWILAIR MIS HYDREF 2013
### Llyfrau'r Beibl

| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A | A | O | W | F | H | E | X | O | D | U | S | R | I | E | J | L | C | M | B |
| V | B | H | B | X | J | U | I | S | L | V | S | H | E | I | M | G | V | H | M |
| D | W | H | U | A | Z | M | X | V | E | A | D | D | N | A | P | A | U | Q | U |
| S | O | G | F | R | D | P | Y | Q | F | J | Z | G | R | H | C | U | M | W | N |
| S | O | Y | E | R | I | E | A | S | I | O | Z | U | T | F | D | X | U | P | W |
| A | R | H | C | N | Q | H | I | W | T | S | E | H | O | Y | E | E | G | E | O |
| M | M | H | E | P | E | T | T | A | I | U | C | B | B | C | U | U | J | P | L |
| U | T | M | I | A | V | S | V | D | C | A | C | D | B | B | F | R | F | O | G |
| E | J | V | I | I | I | R | I | R | U | X | I | D | M | H | T | T | O | S | K |
| L | O | P | C | E | W | R | C | S | S | M | K | E | C | B | O | R | C | X | V |
| R | Y | H | U | N | S | T | M | R | E | I | F | O | Y | J | D | Z | H | B | C |
| W | O | S | C | A | C | R | A | I | R | X | N | N | I | L | X | J | J | M | B |
| W | T | E | A | F | A | X | M | E | D | X | K | I | F | U | P | C | Q | Y | O |
| I | L | F | B | F | E | I | M | R | Z | Q | R | H | O | C | T | D | G | W | S |
| L | Z | E | A | E | B | U | E | L | E | A | J | N | K | J | C | L | N | L | R |
| V | O | G | H | S | N | J | E | S | P | W | P | E | G | S | O | W | J | J | Q |
| U | L | F | S | V | T | I | X | E | E | U | G | R | H | S | L | Z | E | A | F |
| X | I | W | T | Z | N | H | K | V | A | G | B | B | N | K | A | D | S | I | K |
| O | G | D | H | A | B | S | I | U | R | O | X | A | G | X | R | A | E | E | K |
| K | D | A | D | N | T | O | G | W | B | M | B | J | R | F | U | N | K | B | Z |

Y mis yma mae enw deuddeg LLYFR O'R BEIBL i'w darganfod. Mae un cliw wedi ei ddangos yn barod. A oes modd i chwi ddarganfod y gweddill? (Mae LL, CH, DD, TH), acyb yn un llythyren yn y Gymraeg, ond i bwrpas y chwilair dangosir hwynt fel dwy lythyren ar wahân.

Atebion gydag enw a chyfeiriad i Andre Lomozik, Zakopane, 7 Rhos-y-coed, Bethesda, Bangor, Gwynedd, LL57 3NW. Erbyn **1 TACHWEDD.** Bydd gwobr o £5.00 i'r enw cyntaf allan o'r het. Os na fydd unrhyw un wedi darganfod y deuddeg yna'r rhif agosaf fydd yn cael y wobr

Dyma ni yn troi at y Beibl y mis yma, gobeithio y cewch bleser wrth chwilio am yr enwau.
**Dyma atebion Medi.** Actorion, Beirdd, Eisteddfod, Enillwyr y Goron, Ffeiriau, Gorsfeudd, Heddwyn, Llefydd Cymru, Masnachwyr, Siop W. E. Jones, Tai Newydd, Ymddiriedolaeth.
**Dyma enwau'r rhai a gafodd yr atebion cywir.**
Elizabeth Buckley, Tregarth; Mrs G. Clark, Tregarth; Elfed Bullock, Maes y Garnedd; Doris Shaw, Bangor; Marilyn Jones, Glanffrydlas; Alwyn Rowlands, Tregarth; Herbert Griffiths, Tregarth; Eirlys Edwards, Bethesda.
**Enillydd Medi oedd** Alwyn Rowlands, 2 Tan y Ffordd, Tregarth, Bangor, LL57 4PS.

# O'r Llyfrgell

**Sialens Ddarllen yr Haf**
Llongyfarchiadau i holl blant y Dyffryn a gymrodd ran yn y Sialens Ddarllen,Plas Braw, dros wyliau'r Haf - 146 ohonynt!

Roedd llawer mwy wedi ei chwblhau y flwyddyn yma,sef 109! Da iawn chi blant,a chofiwch ddal ymlaen â'r gwaith da,trwy ddod i'r Llyfrgell a benthyg,a darllen,mwy o lyfrau.

**Hoffi Darllen ond yn methu ymweld â'ch Llyfrgell Leol?**
Os ydych chi yn ei chael hi'n anodd symud o'ch tŷ, neu ymweld â llyfrgell, yna gallwch gael y llyfrgell deithiol i ymweld â'ch cartref bob mis gyda deunydd darllen i chi. Mae hwn yn wasanaeth cyfeillgar, hwylus a hollol rad ac am ddim.

Rydym yn cynnig dewis o lyfrau, llyfrau llafar ar CD a llyfrau Print Bras – yn Gymraeg a Saesneg.

I gael sgwrs am y gwasanaeth hwn neu i wneud cais eich hunan neu ar ran rhywun arall, cysylltwch â
Gwasanaeth Llyfrgell Gwynedd, Caernarfon – 01286 679465 neu Gwasanaeth Llyfrgell Gwynedd, Dolgellau – 01341 422771
Neu e-bostiwch llyfrgell@gwynedd.gov.uk

## Cymdeithas Genweirwyr Dyffryn Ogwen

Pan mae'r 'sgota yn araf a'r pysgod yn gyndyn o frathu mae rhywun yn meddwl wrtho'i hun weithiau 'Pam dwi'n gwneud hyn a minnau efo cymaint o bethau eraill sydd angen eu gwneud?' Mae o'n gwestiwn mawr a dwi'm yn siwr os oes yna ateb syml.

Wrth gwrs mae yna fwy i 'sgota na dim ond dal pysgod ac un o'r pethau brafiaf am fod yn aelod o glwb neu gymdeithas bysgota ydi'r brawdoliaeth, y rhannu (boed yn wybodaeth neu'n offer), y gwmniaeth a'r tynnu coes. Ychwanegwch yr oriau o ymlacio a wahennir gan adegau o gyffro pur. Beth wedyn am y golygfeydd? Y tawelwch? I rai mae'r mae 'cyffro'r gobaith' yn ran o'r hwyl gyda llawer yn cael pleser mawr yn cawio plu neu'n casglu gêr. Mae pleser hefyd i'w gael o ddysgu gan eraill ac o basio'r grefft ymlaen i'r genhedlaeth nesaf. Un o'r sesiynau difyraf ges i 'leni oedd pnawn yn Llyn Buwch a hynny nid am i mi ddal pysgod ond am i mi gael y fraint o wylio dau ddyfrgi yn chware yn y lli.

Wrth i'r tymor ddynesu i'w derfyn mae'n rhaid nodi mai siomedig yw'r diffyg dŵr sydd wedi bod yn yr afon hyd yn hyn. Mae'r hogia sy'n rhoi'r oriau mewn yn cael eu gwobr ond i'r sgotwr eog achlysurol, mae hi 'di bod yn galed. 'Does na'm amheuaeth fod yna bysgod yn aros yn amyneddgar yn Aberogwen am li mawr. Wrth i mi ysgrifennu pwt yma heno, daw newyddion da .... mae'n gaddo glaw .. a llawer ohonno! Fydd 'fory yn ddiwrnod i'w gofio tybed? Amser a ddengys.

Diddorol oedd darllen geiriau'r golffiwr Tiger Woods yn ddiweddar pan ddywedodd ei fod yn mwynhau 'sgota oherwydd ei fod mor ymlaciol, mor dawel ac mor heddychlon. Dywed fod pysgota yn ddihangfa iddo gan ei fod mor wahanol i weddill bywyd. Efallai, felly, mai'r ateb syml i'm cwestiwn cychwynol ydi 'Dwi'n gwneud hyn am fod gen i gymaint o bethau eraill sydd angen eu gwneud!'

**Pob lwc!**
**Gareth Evans pysgotaogwenfishing.org**


**Modurdy Central**

**Ceir ail-law ar werth**
**M.O.T. ar gael**
**Hefyd**
**Trwsio a Gwasanaeth**

**Ar Allt Pen-y-bryn, Bethesda**
**☎601031**



**Elwyn Jones & Co**

**hefyd yn masnachu fel**
**Parry Davies Clwyd-Jones & Lloyd**

**- Cyfreithwyr -**

123 Stryd Fawr
Bangor
Gwynedd
(01248) 370224

***Ar gyfer eich holl anghenion cyfreithiol***
***Gwasanaeth dwyieithog personol a chyfeillgar***

Lexcel

***Swyddfeydd eraill:***

***Llangefni (01248) 723106 — Amlwch (01407) 831777 — Benllech (01248) 852782***

***Caernarfon (01248) 673616 — Pwllheli (01758) 703000)***



BYSUS D. P. OWENS RHIWLAS

**01248 361044 a 07771 634195**



BYSUS O 25 I 57 SEDD AR GAEL AR GYFER EICH HOLL ANGHENION TEITHIO - TRIPIAU, PRIODASAU, PARTÏON AC ATI.

**Bysus Gwyrdd Rhiwlas**

GWASANAETH LLEOL, TRADDODIADOL A DIBYNADWY
SEFYDLWYD 1997 PERCHENNOG: DERFEL OWENS



**Arbenigwr mewn lloriau coed caled**

**A.G.L.** Lloriau

Arbenigwr mewn gosod a selio lloriau coed caled, adnewyddu lloriau gwreiddiol a chyweirio lloriau sydd wedi eu difrodi.

Andrew G. Lomozik B.A.
Ffôn: 01248 602117 Symudol: 07835487909





# Posh Paws

## Tacluso Cŵn

**Busnes lleol**

Prynhawniau neu Nosweithiau
4.00 - 10.00
Dydd Sul 8.00 a.m - 4.00 p.m.
**Gwasanaeth casglu a danfon**

Ty'n Llan Uchaf, Llanddeiniolen
**01248 671382** neu **07935324193**
Ebost: juliaposhpaws@btinternet.com



**Cerbydau Penrhyn**

**CABIAU A BYSIAU MINI**
**Ffôn: (01248) 600072**

**Meysydd awyr ♦ Porthladdoedd**
**Contractau**

**Contractwyr i Wasanaeth Ambiwlans Gogledd Cymru**



*Blodau Racca*

PENISARWAUN

*Planhigion gardd a basgedi crog o'r ansawdd gorau*
*- gan hogan o Rachub*

*Ffôn: 01286 870605*



Contractwyr Trydanol

**Jones & Whitehead Cyf**

Swyddfa Gofrestredig
Penrala, Tregarth, Bangor, Gwynedd, LL57 4AU

Ffôn: 01248 601257
Ffacs: 01248 601982

E-bost: info@jonesandwhitehead.co.uk

constructionline — NICEIC — ECA — CHAS




**YSGOL YRRU**

**DerfeL**

**07982 076 455**
**01248 605 325**
derfelowen@sky.com — Haulfryn - Llanllechid

# Taith o Amgylch y Fro
## gydag Arwyn Oliver




**Taith 5 - O Amgylch Moelyci**

Parcio ym Mhant yr Afon – llecyn sydd i fyny'r allt o Ysgol Bodfeurig. Fe welwch flwch postio yno ac un o'r golygfeydd harddaf yng Ngogledd Cymru wrth edrych i gyfeiriad y môr.

Ewch i gyfeiriad Deiniolen ac anelu am giât fochyn sydd ar y dde wrth fynedfa i ddau fwthyn Pant yr Afon. Mynd drwy'r giât a dilyn y llwybr i fyny'r ffridd i gyfeiriad coedwig Parc Bwlch.

Ar ôl cyrraedd y giât fochyn sy'n arwain i'r parc coedwig, dilynwch y llwybr gan groesi'n syth ar draws y ffordd ac i fyny i'r coed. Ymhen ychydig daw'r llwybr a chi i'r ffordd a grëwyd gan y comisiwn coedwigaeth pan oeddent yn torri rhywfaint o'r coed.

Trowch i'r dde a cherdded i lawr y ffordd. Wrth gyrraedd rhan isaf y ffordd fe welwch lwybr yn codi rhyw gymaint i'r chwith. Mae hysbysfwrdd yma ar gyfer beicwyr mynydd sy'n defnyddio un o'r llwybrau serth a grëwyd ar y Foel.

Dilynwch y llwybr yma nes cyrraedd giât fochyn arall aiff a chi trwy waliau cerrig cadarn. Ymhen dim, byddwch yng ngolwg Rhiwlas a golygfeydd gwych tua Phentir ac Ynys Môn.

Daw'r llwybr a chi at giât fynydd arall ger hen gorlan gerrig (ar y chwith). Rydych yn awr ar hen ffordd y Foel. Mae'r rhan gyntaf o'r hen ffordd yn gallu bod yn wlyb. Ewch i fyny i'r chwith a byddwch yn barod am gerdded eithaf caled am ryw hanner awr. Mae digon o lecynnau ar y ffordd i chi gael pum munud a mwynhau'r golygfeydd tua Chaernarfon a'r Eifl. Cadw am i fyny heibio bwthyn Ty'n Llidiart.

Ymlaen tua phen yr allt a chyn bo hir, fe ddowch i olwg Marchlyn Mawr a'r ddwy Elidir o'ch blaen. Cadw at y wal ar y chwith a drwy giât arall nes dod i olwg gwaith dŵr Mynydd Llandygai. Daw giât fochyn arall a chi allan i ffordd Deiniolen yn is lawr na'r gwaith dŵr. Cerdded i lawr y ffordd gan fynd heibio Tan y Bwlch a Llwybr Main. Heibio tyddynnod Tŷ Cerrig, Bodorgan, Geufron a Bwlch y Ffordd nes cyrraedd yn ôl i Bant yr Afon.

Pellter: Ychydig dros 3 milltir
Amser: Tuag awr a hanner
Math o daith: Serth mewn mannau ond werth yr ymdrech
Offer: Esgidiau addas er bod y llwybrau'n eithaf cadarn




# Côr y Penrhyn

**Caerdydd**
Wedi egwyl dros wyliau'r haf mae'r côr wedi ail afael yn ei waith ac wrthi'n brysur yn dysgu caneuon newydd ar gyfer ymweliad â Chaerdydd ar benwythnos y gêm ryngwladol rhwng Cymru a De Affrica ar Dachwedd 11. Btdd y côr yn ymuno â dau gFôr arall o Dde Cymru i ddifyrru'r dorf cyn y gêm ac i godi hwyl tra bo'r seddau'n llenwi.. Dyma'r ail dro inni gael ein gwahodd i ganu mewn gêm ryngwladol gan inni berfformio cyn y gêm rhwng Cymru a'r Alban yn y Stadiwm Genedlaethol ddwy flynedd yn ôl pan aeth Cymru ymlaen i guro'r gamp lawn.

Yn ystod yr un penwythnos byddwn yn perfformio mewn rhaglen deyrnged i John Ogwen ar S4C.. Mae John yn gyfaill triw i'r côr ac yn un o'n is-lywyddion ac edrychwn ymlaen at gyfrannu i'r rhaglen deyrnged iddo.

**Galw mawr am wasanaeth y côr**
Mae'r côr eisoes wedi perfformio ddwy waith yn Llandudno a dwy waith ym Metws y Coed ers ail gychwyn ymarferion yn nechrau Medi. Ar Fedi 21 buom yn canu mewn cyngerdd i godi arian at Sefydliad y Badau Achub (RNLI) yn Eglwys Sant Ioan, Llandudno ac fe gafodd y gynulleidfa a drodd allan i wrando arnom wledd o gyngerdd gyda'r côr a'r unawdydd gwâdd, Glain Dafydd y delynores ifanc ddisglair o Bentir yn cyflwyno rhaglen ddiddorol a bywiog. Mae Glain yn astudio'r delyn ym Mharis ac yn brysur ennill ei lle fel un o'n prif delynorion ac yn ddios mae dyfodol nodedig o lwyddiannus o'i blaen. Hefyd, bu Cai Fon y canwr ifanc a fu'n unawdydd gyda ni yn Hull y llynedd yn perfformio gyda ni ym Metws y Coed ar Fedi 29. Mae Cai, fel Glain o'i flaen yn un o ddisgyblion Owain Arwel ein harweinydd yn Ysgol Tryfan, Bangor.

**Croesawu aelodau newydd**
Ar ddechrau blwyddyn newydd yn hanes y côr mae'n fraint cael croesawu nifer o aelodau newydd i'n plith gan gynnwys pedwar o fechgyn ifanc. Gobeithio'n fawr y byddant yn mwynhau bod yn aelodau ac y byddant oll yn cyfrannu o'u doniau i lwyddiant y côr am flynyddoedd i ddod.

Dywedodd Elfyn Roberts a Garem Jackson eu bod yn falch o gael ymuno â'r cwmni unwaith eto ac meddai Garem, "Braint yw cael eistedd ymhlith cyfeillion unwaith eto bydd fy nghyfaill Elfyn a minnau yn bwrw ati i ddysgu rhaglen gynhwysfawr y côr ar gyfer Caerdydd a phob ymrwymiad arall sy'n gwneud Côr y Penrhyn yn gymdeithas mor ddiddorol a bywiog i fod yn rhan ohoni."

# Hiraeth Mam
**Neil Florence 1969 – 1988**



Ar 18 Hydref bydd 25 mlynedd wedi mynd heibio ers i fy mab annwyl, Neil Florence, gael ei ladd mewn damwain traffig.
Bu'n ddisgybl yn Ysgol Gynradd Llanllechid ac Ysgol Dyffryn Ogwen, a bu'n gweithio ar Sadyrnau yn siop ffrwythau a llysiau Gwynedd ym Methesda. 'Roedd y siop yn gwerthu pysgod hefyd, ac un diwrnod daeth Neil adref efo 'sliwan' mewn bag plastig, gan ddweud bod ganddo rhywbeth neis i de! 'Roedd wrth ei fodd yn fy ngweld yn neidio o gwmpas y lle yn sgrechian mewn braw – ych a fi!

Cafodd Neil hefyd gyfnod yn gwneud profiad gwaith yn swyddfa Chwarel y Penrhyn cyn mynd i weithio i 'Swinton Insurance' ym Mangor. Pan ddigwyddodd y ddamwain 'roedd ar fin symud i'w swyddfa yng Nghaernarfon i fod yn rheolwr yno.

'Roedd yn hoff iawn o bêl-droed a rygbi, a hefyd cafodd y 'gwregys du' mewn Karate. 'Roedd Neil yn caru pawb, a phawb yn caru Neil! Cyflawnodd lawer yn ystod ei fywyd byr ac 'roedd yn falch iawn o fod yn 'how-get'.

Mewn hiraeth mawr amdano, ei fam, Marian.

Copa
Siop Trin Gwallt a Harddwch
**Bethesda 600094**
Yn arbenigo mewn trin gwallt merched, dynion a phlant.
Cynghori, gosod a thorri wigiau
Rhai gwasanaethau harddwch a shafio (rasal "cut throat")

**Y Douglas Arms**
* Lluniaeth i Bartïon * Te Cynhebrwng *
* Gardd Gwrw * Te a Choffi *
**Oriau Agor**
**Llun – Gwener: 6.00 - 11.00**
**Sadwrn: 3.30 – 12.00**
**Sul: Pnawn 1.00 - 4.00, Hwyr 8.00 -11.00**
**01248 600219**
**www.douglas-arms-bethesda**
Cewch groeso cynnes gan Gwyn, Christine a Geoffrey

**CAFFI COED Y BRENIN**
**1 Rhes Buddug, Bethesda**
**Ffôn: 01248 602550**
karena@agoriad.org.uk

**Bwyd cartref blasus**
***(mewn awyrgylch cyfeillgar)***
**Cinio arbennig bob dydd Iau**
**Bwyd i'w gario allan**
**Gwasanaeth arlwyo ar gyfer partïon o bob math - plant, pen-blwydd ac ati**
***(yn y caffi neu mewn lle o'ch dewis chi)***
**Cacennau ar gyfer pob achlysur e.e. priodas neu ben-blwydd**
**Prisiau rhesymol**

**BISTRO'R BRENIN (Bwyty Trwyddedig)**
Rydym yn croesawu partïon o bob math – dathlu pen-blwydd ac achlysuron arbennig eraill.
Beth am eich Parti Nadolig?

Gadewch i
**Londri Coed y Brenin**
wneud eich golchi

**Ymgymerwr adeiladu a gwaith saer**
**Ronald Jones**
Bron Arfon, Llanllechid
Bethesda
☎ 01248 601052

**Gareth Williams**
**Trefnydd Angladdau**
**Crud yr Awel**
**1 Ffordd Garneddwen**
**Bethesda**
**Ffôn: (01248) 600763 a 602707**
**GWASANAETH DYDD A NOS**

Oriel Cwm
Cwm y Glo, Caernarfon
Gwasanaeth fframio lluniau o bob math ar gael ar y safle
Prisiau rhesymol
Arddangosfa gan artistiaid lleol
Ffôn / Ffacs 01286 870882
RICHARD S. HUMPHREYS
FINE ART TRADE GUILD

**Pob math o waith trydanol**
**Huw Jones**
**Ymgymerwr Trydanol**
Trydanwr cymwysedig gyda phrofiad diwydiannol
Y Wern, Gerlan, Bethesda
Gwynedd LL57 3ST
**Ffôn: 01248 602480**

**LONDIS**
**BETHESDA**
☎ 01248 605566
**Archfarchnad hwylus**
**Gwasanaeth personol gyda'r pwyslais ar y cwsmer**
Tocynnau Loteri, cardiau a biliau trydan a nwy
**Ar agor 7.00 y bore tan 10.00 yr hwyr**
**7 diwrnod yr wythnos**

STEPHEN JONES
✝
TREFNYDD ANGLADDAU

**Hefyd ymgymryd â gwaith cerrig beddi: adnewyddu neu o'r newydd**
Gweithdy Pen-y-bryn
Cefn-y-bryn, Bethesda
Ffôn: gweithdy 600455
gartref 602455
personol 07770 265976
Bangor 360001
**Gwasanaeth personol ddydd a nos**

**JOHN ROBERTS**

**Paentiwr**
**Papurwr**
**Teilsiwr**
**Symudol: 07747 628650**
**Ffôn: 01248 600995**

**C.L. JONES**
Masnachwyr Coed a Nwyddau Adeiladu
Bethesda 01248 600045
Caernarfon 01286 676070
Llangefni 01248 751677
Cludiant am ddim yn lleol
Stoc helaeth ac amrywiol
Croeso i gyfrifon masnachol
Staff cyfeillgar a phroffesiynol
**Popeth ar gyfer y diwydiant a D.I.Y**
Mynytho 01758 730768
LLanrwst 01492 640794
Siop yn Llanrwst 01492 640794
**Mae Arddangosfa Ceginau ac Ystafelloedd Ymolchi yn ein cangen yn Llangefni**

## Cangen Plaid Cymru
## Dyffryn Ogwen

Cynhaliwyd ein cyfarfod misol ar Nos Fawrth, Medi 25ain, gyda'r Dr. Paul Rowlinson yn y gadair.

Diolchwyd i'r gangen, trwy lythyr am eu cefnogaeth a'u rhodd tuag at Ymgyrch Môn yn yr is -etholiad fis Awst a llongyfarchwyd Rhun ap Iorwerth ar ei fuddugoliaeth swmpus.

Oherwydd bod Canolfan Rachub wedi cau dros dro er mwyn gwaith cynnal a chadw bu Hywel Williams, A.S. yn cynnal cymhorthfa yn y Gerlan, ble daeth nifer dda o bobl i'w weld. Bydd y Cyngh. Ann Williams a Dafydd Owen yn trefnu dyddiadau eraill ar ei gyfer ac i'r A.C. Alun Ffred.

Cafwyd cais newydd am aelodaeth a chroesawyd hynny'n fawr. Oherwydd is etholiad Môn gohiriwyd yr Ysgol Haf eleni a bellach cynhelir Ysgol Aeaf yng Nglanllyn Y Bala Tachwedd 22ain - 24ain. Anogwyd yr aelodau i fynychu'r Gynhadledd Genedlaethol yn Aberystwyth ar Hydref 11 – 13 a chafwyd sicrwydd y byddai nifer dda o gynrhychiolwyr o'r gangen yno.

Anfonwyd enwau'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd (wrth gefn) i fod yn cynrhychioli Arfon ar y Cyngor Cenedlaethol.

Llongyfarchwyd y Cyng. Dafydd Meurig ar gael ei enwebu fel ymgeisydd Etholaeth Aberconwy ar ran Plaid Cymru yn Etholiad 2015.

Mae pryder gan gynghorwyr oherwydd y pwysau ychwanegol a roddir ar y bont ym Mhont y Tŵr oherwydd gwasgwr sydd wedi ei archebu er mwyn gwneud gwaith yn y chwarel ac y dylid ymholi ymhellach ynglŷn â hyn.

Cydymdeimlwyd â nifer o'n haelodau sydd wedi cael profedigaeth dros yr haf ac anfonwyd cyfarchion at rai a fu'n wael. Cofion arbennig at Ceinwen Evans, Llandygai, aelod ffyddlon o'r pwyllgor, a gafodd driniaeth lawfeddygol yn ddiweddar.

Gwnaed trefniadau ar gyfer y Bore Coffi a gynhelir yng Nghaffi Coed y Brenin ar Sadwrn, 19 Hydref.

Dyddiad y cyfarfod nesaf fydd 29 Hydref.

## Plaid Lafur
## Dyffryn Ogwen

Ar ddechrau gwyliau'r hâf aeth nifer o aelodau i gyfarfod o Blaid Lafur Gogledd Cymru yng Nghyffordd Llandudno, yn bennaf i wrando ar adroddiad am ymdrechion llwyddiannus i greu gwaith e.e. y cynllun prentisiaeth a'r cynnydd sylweddol iawn mewn buddsoddiad allanol.

Yna, ar ddechrau mis Medi, cynhaliwyd cyfarfod o bwyllgor gwaith Arfon yng Nghaernarfon, yn bennaf i drafod materion mewnol e.e. ad-drefnu Plaid Lafur Gwynedd. Mae'n werth nodi bod aelodau o undebau (fel Susan Davies, Hen Barc) a'r mudiad cydweithredol (fel K.C.Gordon, Llanllechid) ar y pwyllgor gwaith, yn ogystal â chynrychiolwyr o'r canghennau.

Yna, yng nghanol y mis, aeth rhai o'r aelodau i ben Yr Wyddfa, gan godi baner ALUN DROS ARFON am mai Alun Pugh yw ein hymgeisydd ar gyfer etholiad San Steffan yn 2015.

Ar ddiwedd y mis, cynhaliwyd y cyfarfod misol arferol yng Nghanolfan Cefnfaes.

Cafwyd gwybod am chwe cyfarfod o'r Blaid Lafur a fyddai'n digwydd yn ystod mis Hydref a gwnaed trefniadau i ymuno â'r ymgyrch recriwtio aelodau.

Cafwyd gwybod hefyd am ddatblygiadau gan Gyngor Gwynedd (e.e. codi pris cinio ysgol o 5c) a'r data perfformiad a oedd yn dangos gwendidau a chryfderau (e.e. ail-gylchu a chompostio efo'i gilydd yn is na chynghorau eraill Gogledd Cymru), yn ogystal â gwybodaeth am y Cynghorau lleol (e.e. y rhaglen hyfforddiant ar gyfer cynghorwyr, a Chyngor Bethesda'n penderfynu ymuno â'rGynghrair Cymundau Cymraeg).

Da oedd deall bod y rhan lydan o Lôn Bach Odro wedi cael ei hail-darmacio ar ôl i'r Cynghorydd Godfrey Northam bwyso am flynyddoedd.

Cynhelir cyfarfodydd misol y gangen ar y bedwaredd Nos Fercher, ar wahân i Rhagfyr ac Awst.

# Croesair Hydref 2013

**AR DRAWS**

7 a.m. (4)
8 Torri ar draws (8)
9 Cael trin offeryn chwyth (8)
10 Cymar y rhaw i agor ffosydd (4)
11 "- ------- a'i ddwy Jesebel". Llyfr y flwyddyn 2008 (Gareth Miles) (1,7)
14 Swyno a denu (4)
15 Egni a grym (4)
16 Mae'r tanwydd wedi darfod ! Dyna derfyn ar bethau (8)
17 Mae Penybont arni (4)
19 Am ei bechod a'i nam tuedda i ofyn am hwn (8)
21 Nodwedd y sawl sydd am ladd gyr (8)
22 Ar ben ei hun (4)

**I LAWR**

1 Y gweddill ar lawr cae'r cynhaeaf (4)
2 Wedi'r heth, y dadmer (8)
3 Ffeirio (8)
4 Daw o flaen helynt os am wybod hanes rhywun (4)
5 Llwybyr ras (4)
6 Hardd a del i Dona (8)
12 Ardderchog, taflodd ei gap i'm pen (8)
13 Dyma raid ei wneud os am gadw efo'r oes (8)
14 MI5 a KGB (5,3)
18 Y munud yma heb ymdroi (4)
19 Tagu wrth smocio efallai (4)
20 Llam (4)


**ATEBION CROESAIR MEDI 2013**

**AR DRAWS** 7 Mair, 8 Awr, 9 Amen, 10 Cernyw, 11 Ieuanc, 12 Aig, 13 Cardod, 14 Labrwr, 16 Gwiber, 19 Plethyn, 21 Wal, 22 Anafus, 24 Arddwrn, 25 Allan, 26 Afu, 27 Yngan

**I LAWR** 1 Tawela, 2 Crynodeb, 3 Galwad, 4 Treigl, 5 Palu, 6 Deunaw, 15 Breuddwyd, 17 Wenallt,18 Rwsiad, 19 Pladur, 20 Ymroad, 23 Fyny

Yr hyn a faglodd fwy nag un y tro hwn oedd y cliw am un o organau mwyaf y corff. Yr ateb oedd yn ffitio oedd 'afu'. Nid oedd 'iau' yn caniatau i chi roi ateb cywir i gliw arall. Y cynnig cywir cyntaf allan o'r het y mis hwn yw eiddo **Elfed Evans, 12 Hen Barc, Llanllechid, Bethesda LL57 3RS** ac iddo ef y mae'r wobr yn mynd. Llongyfarchiadau mawr i chi.

Da iawn y canlynol hefyd am eich atebion perffaith :
llen Whitehouse, Birmingham; Rita Bullock, Bethesda; Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch; Sara a Gareth Oliver, Dulcie Roberts, Elizabeth Buckley, Tregarth; Karen Williams, Llanllechid; E.E. Roberts, Llanberis; Doris Shaw, Bangor; Dilys Parry, Rhiwlas.




Atebion erbyn dydd Mercher, 30 Hydref i:
'Croesair Hydref', Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda. LL57 3PD.

Enw:

Cyfeiriad:

# OWEN'S TREGARTH

**Cludiant Preifat a Bws Mini**



Cerbydau 4, 8 ac 16 sedd
Arbenigo mewn meysydd awyr

**01248 602260**
**07761619475**



**www.owenswales.co.uk**

---

**JR SGAFFALDIAU Cyf. SCAFFOLDING Ltd.**

YR IARD, FFORDD STESION, BETHESDA,
GWYNEDD LL57 3NE
ebost: sales@jrscaffolding.co.uk

Ffôn/Ffacs:
**01248 601754**
07770 568743 (symudol)

CITB

---

Sefydlwyd 1969

**m.hughes a'i fab**

**CONTRACTWYR TOI**
2 Hen Aelwyd, Bethesda
☎ 600633
☎ (symudol) 07702 583765

*Arbenigo mewn gwaith ffelt a pitsio.*
*Hefyd toeau llechi a gwaith yswiriant.*
*Gadewch i ni gynnig pris rhesymol am waith diguro.*

---

# Tudur Owen, Roberts, Glynne a'u cwmni

**DEWCH I WELD EICH CYFREITHIWR LLEOL**

**SGWÂR BUDDUG**
**STRYD FAWR**
**BETHESDA**
**GWYNEDD**
**LL57 3AG**

☎
**BETHESDA**
**01248 600171**
**torg@hotmail.co.uk**

**Cyfreithwyr**

**Y CYNGOR CYNTAF AM DDIM**

**EWYLLYSIAU A PHROFIANT**

**SYMUD TŶ**

---

# MODURDY FFRYDLAS

Profion M.O.T.

Perchennog
**A. Ll. Williams**

**Stryd Fawr, Bethesda**
**♦ PROFION M.O.T. ♦**

**GWASANAETH ♦ ATGYWEIRIO**
**♦TEIARS A BATRIS♦**
**GWASANAETH TORRI I LAWR NEU DDAMWAIN**

☎ 600723
Ffacs: 605068

---

**Meithrin Menter Gymdeithasol Leol**

**Am gymorth:**
i sefydlu menter
i gynnal gweithdai
i geisio am arian
i redeg mudiad
i wirfoddoli
**cysylltwch â Mantell Gwynedd**

- yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
ymholiadau@mantellgwynedd.com
01286 672626 neu 01341 422575
Elusen Gofrestredig 1068851 Cofrestrwyd yng Nghymru
Cwmni Cyfyngedig drwy Warant 3420271

---

**Hysbysebwch yn y Llais 600853**

---

**BARBWR OGWEN**

Torri Gwalltiau
Dynion a Phlant
gan Alison

---

## Malinda Hayward

**(Gwniadwraig)**

**Awel Deg**
**Penygroes, Tregarth.**

**Am unrhyw waith gwnïo**
**- trwsio, altro ac ati -**

**Ffoniwch**
**01248 601164**

---

**SAMARIAID**

Mae
**Llinell Gymraeg**

**0300 123 3011**

ar gael bob nos rhwng
7.00pm ac 11.00pm

---

# L. Sturrs

**a'i feibion**

sefydlwyd yn 1965

## ADEILADWYR

**Hen Iard Stesion,**
**Ffordd y Stesion, Bethesda**

**Ffôn: 600953**
**Ffacs: 602571**
**lsturrs@googlemail.com**

---

**DAFYDD CADWALADR**

**Cynhyrchion Coedlannol**

Coed Tân - Llwythi bach a mawr
Ysglodion pren i'r ardd
Ffensio a thorri coed
Asiant system gwresogi trwy losgi coed

**01248 605207**

---

# WU SHU KWAN



**Bocsio Cic Tsieineaidd (Kung Fu)**

**Dosbarthiadau yng Nghanolfan Gymdeithasol Tregarth bob nos Fercher 6.30 tan 8.30**

**Un sesiwn am ddim os dewch â'r hysbyseb hwn hefo chi**

**♦ Croeso i bawb, yn arbennig dysgwyr ♦**

**Manylion gan Jake neu Elena Fitzpatrick - 01248 602416 neu galwch heibio'r dosbarth**

# O'r Cyngor

**Cyngor Cymuned Bethesda**

**Côr y Penrhyn** - Cais gan y Côr i gael darpariaeth ar gyfer arddangosfa o greiriau allweddol o hanes (gan gynnwys hanes Y Côr) diwylliannol cyfoethog ardal Dyffryn Ogwen fel rhan o'r datblygiadau arfaethedig i Neuadd Ogwen.

Penderfynwyd y dylid symud yr arddangosaf a'r eitemau eraill hyn o'r Neuadd i safle arall diogel dros dro a throsglwyddo'r cais i'r bwrdd rheoli newydd.

**Pont Sarnau** - Cais gan y Cynghorydd Ann Williams i ystyried paentio Pont Sarnau a'i thwtio yn gyffredinol. Wedi darganfod mai Adain Hawliau Tramwy Cyngor Gwynedd oedd yn gyfrifol am y bont, siomedig oedd clywed nad oes ganddynt adnoddau ariannol ar gyfer y gwaith oherwydd bod nifer o bontydd cerdded wedi eu difrodi gan y llifogydd trwm yn ystod Tachwedd 2012.

**Cynghrair Cymunedau Cymraeg** - Gwahoddiad i'r Cyngor ymaelodi â Chynghrair Cymunedau Cymraeg. Eu nod yw sefydlu fforwm o grwpiau cymunedol a chynghorau er mwyn rhannu syniadau ac arfer da ynghylch cynnal ac adfywio'r Gymraeg ar lawr gwlad. Ar ôl canlyniadau Cyfrifiad 2011, mae angen sicrhau bod pobl yn siarad ac yn defnyddio'r Gymraeg yn ein cymunedau. Credant fod angen i gymunedau cael eu hyrwyddo yn economaidd ac yn ddiwylliannol, fel bod modd cynnal y Gymraeg yn y lleoedd lle mae'r iaith yn gryf ac adfywio'r Gymraeg yn y llefydd lle mae'r Gymraeg yn tyfu.

**Cymdeithas Tai Eryri** - Derbyniwyd llythyr ynghyd â'u Hadroddiad Blynyddol a llythyr arall yn hysbysu bod Cymdeithas Tai Eryri a Tai Clwyd yn bwriadu uno yn un corff.

**Cymraeg efo'n Gilydd** - Gwybodaeth am grant sy'n cael ei weinyddu gan Fantell Gwynedd o hyd at £100 i ariannu digwyddiad cyhoeddus sydd yn estyn croeso i ddysgwyr yr iaith.

**Canolfan Rachub** - Cafwyd adroddiad ysgrifenedig gan y Cynghorydd Dyfrig Jones ac fe drafodwyd ei gynnwys. Penderfynwyd fod y Cyngor Cymuned i fynd ymlaen gyda derbyn perchnogaeth y Ganolfan a bod y Cyngor Cymuned yn ariannu'r gwaith adnewyddu adeilad o'r arian sydd gan y Cyngor Cymuned wrth gefn er mwyn iddi allu cael ei hail-agor i'r cyhoedd. Dylid gofyn i Gyngor Gwynedd greu manyleb a thendr ar gyfer y gwaith cyn gynted ag y bodd modd.

**Cyngor Cymuned Pentir**

Yn eu cyfarfod cyntaf ers seibiant yr Haf, penderfynodd yr aelodau ysgrifennu at yr Aelod Seneddol, Mr Hywel Williams, i ofyn iddo roi pwysau ar y Llywodraeth i orfodi y Grid Cenedlaethol i roi ceblau o dan ddaear, yn hytrach na chodi peilonau ar hyd y tirwedd.

Nodwyd fod gwrthwynebiad wedi ei anfon i Gyngor Gwynedd ynglŷn â' chais cynllunio Tŷ Coch, Glasinfryn, a mynegwyd siom fod y cynllun i adeiladu tai yn y Goetre, Penrhosgarnedd wedi ei dderbyn gan Gyngor Gwynedd.

Penderfynwyd ysgrifennu at Gyngor Gwynedd i nodi fod cloddiau mewn perygl o ddisgyn i'r ffordd ger tai cyngor Caerhun; bod coed yn tyfu yn fwa ar Lôn Bryn a bod hysbyseb ers amser maith ar Bont Felin Hen sydd angen ei dynnu i lawr.

**Cyngor Cymuned Llandygái**

Cynhaliwyd cyfarfod Medi yn Neuadd Goffa Mynydd Llandygái gyda'r Cynghorydd Dafydd Owen yn y Gadair.

Derbyniwyd cwynion oherwydd fod posteri'n cael eu harddangos ar y llochesi bws sydd newydd gael eu hadnewyddu a'u peintio.

Cysylltir â'r cyngor Sir ynghylch nifer o funiau sydd angen eu hatgyweirio a rhai sydd angen eu gwagio'n amlach.

Cafwyd addewid y bydd y Cyngor Sir yn archwilio'r ffyrdd a threfnu i dorri gordyfiant fel bo'r angen.

Hysbyswyd y Cyngor fod cymorthdal o hyd at £100 i'w gael i gymdeithasau sy'n rhoi cyfle i ddysgwyr mewn digwyddiad sydd drwy gyfrwng y Gymraeg. Byddai hyn yn rhoi cyfle i ddysgwyr ymarfer ac ni fyddai angen peidio cynnal cyfarfod mewn Cymraeg yn ôl yr arfer. Gellir cael ffurflen gais trwy gysylltu â Mantell Gwynedd, 23-25 Y Bont Bridd, Caernarfon, LL55 1AB.

Bu'r Cadeirydd, y Cynghorydd Dafydd Owen, yn cyflwyno ysgoloriaethau ar ran y Cyngor i ddisgyblion Ysgol Dyffryn Ogwen. Pleser oedd sylwi ar lwyddiant y disgyblion lleol a'r ysgol.

Penderfynodd y Cyngor i symud ymlaen gyda'r Cyngor Sir i ddarparu gwefan ar y cyd gyda Chynghorau Tref a Chymuned eraill yn y Sir.

Mae'r map newydd gogyfer â'r adolygiad o fynediad agored ar gael i'w archwilio yn Swyddfa Cyfoeth Naturiol Cymru, Maes y Ffynnon, Bangor.

Parheir i dorri llwybrau a thacluso o gwmpas yr ardal. Byddir yn cysylltu â'r Cyngor Sir ynglyn â diogelwch ar y ffyrdd i fodurwyr ac hefyd i blant ar eu ffordd i'r ysgol.

# Balchder Bro Ogwen

## Wythnos Cadw Cymru'n Daclus

Fel rhan o Wythnos Cadw Cymru'n Daclus, daeth gwirfoddolwyr o Balchder Bro Dyffryn Ogwen ynghyd i hel sbwriel ym Methesda. Trefnwyd y digwyddiad gyda chymorth y Cyng. Ann Williams a Gwen Alun, Swyddog Trefi Taclus, Cyngor Gwynedd. Aeth timau i hel sbwriel mewn gwahanol rannau o Fethesda, gan gynnwys Pantdreiniog, i fyny at yr Ystad Ddiwydiannol, Bryn Tirion, Lôn Fach Odro ar y ffordd i Rachub, Ffordd Coetmor a'r ffordd i lawr at Bryn Bela, Ffordd y Stesion, y llwybr at Bont Sarnau a lleoedd eraill.

Meddai Ann Williams: "Dwi'n ddiolchgar i wirfoddolwyr Balchder Bro sydd unwaith eto wedi rhoi o'u hamser i helpu i dacluso Bethesda. Mae'r lle yn sicr yn edrych yn well a dwi'n falch bod nifer o aelodau newydd wedi ymuno â'r timau fel y gallwn ni wneud mwy yn y dyfodol."

Yn ogystal â chlirio sbwriel mae Balchder Bro Ogwen wedi gosod basgedi crog ar Stryd Fawr Bethesda ers nifer o flynyddoedd. Rydym yn croesawu aelodau newydd ac yn awyddus i gydweithio â'r Cyngor ac â grwpiau eraill gyda nifer o gynlluniau cyffrous sydd ar y gweill i wneud Dyffryn Ogwen yn lle gwell i fyw. Os hoffai rhywun helpu neu awgrymu llecyn sydd angen ei glirio, gallan nhw gysylltu â Paul Rowlinson ar y rhif (01248) 605365. Mae Balchder Bro Ogwen yn agored i bawb o bob oedran sydd eisiau gwneud rhywbeth ymarferol i wella'r ardal a'i gwneud yn fwy deniadol.



**Mae'r llun yn dangos rhai yn unig o aelodau Balchder Bro Ogwen cyn cychwyn ar y gwaith - yn anffodus roedd y lleill mor frwdfrydig fel eu bod wedi cychwyn cyn i ni gael cyfle i dynnu eu llun!**

# Gŵyl Cau Neuadd Ogwen

## (Pesda Roc a Sdwnsh Pesda Roc)



Dros benwythnos Gŵyl Banc Awst, cauwyd Neuadd Ogwen yn swyddogol er mwyn cychwyn ar y gwaith adnewyddu.

Cafwyd nosweithiau difyr o Ffilm (Rhosyn a Rhith), Cerdd a Sgwrs (Neil Maffia), a hefyd ymweliad gan Ddwylo'r Enfys bnawn Sadwrn, wedi ei drefnu gan gangen adloniant plant Pesda Roc sef Sdwnsh Pesda Roc. Tra roedd y plant yn mwynhau roedd cerddoriaeth fyw yn Nhafarn y Llangollen, gyda Mr Huw, Sion Rich a Vintage Magpie yn ymddangos. Gyda'r nos symudodd y gerddoriaeth i'r Neuadd lle y cafwyd set gan y Reu, Sen Segur a'r Ods. Diolch i bawb a fu'n cefnogi a gwirfoddoli.

# Marchnad Ogwen



**Dyma Paul Ellis gyda Stondin Moelyci**

Os ydych eisiau Stondin sy'n llawn cynnyrch iach lleol a diddorol, wel dyma hi - Stondin Moelyci.

Fferm ar gyrion Tregarth yw Moelyci ac yno mae'r rhan helaethaf o ddigon o gynnyrch y Stondin unigryw yma yn dod. Mae peth cynnyrch gan dyfwyr sydd o fewn milltir neu ddwy i Moelyci. Dyma wir gyfle i brynu a chefnogi'n lleol!

Cewch lysiau a ffrwythau ffres, yn eu tymor, fwy neu lai yn syth o'r ardd. Mae'r cynnyrch yma hefyd yn mynd i wneud y jam a siytni sydd ar werth gan Paul. Mae wyau ffres gan ieir rhydd ar gael, a mêl o'r cychod gwenyn sydd ar y fferm. Gallwch brynu sebon ar y Stondin a hufen arbennig i'r croen wedi ei wneud o laeth gafr. Gall hwn fod o gymorth i rai sy'n dioddef o ecsema.

Yn ogystal â bwydydd, mae blodau a phlanhigion ar gael, yn arbennig yn ystod y gwanwyn a'r haf.

Paul Ellis yw Rheolwr Prosiect Moelyci ers 6 mlynedd bellach. Mae'n Is-gadeirydd Pwyllgor Marchnad Ogwen. Mae ganddo wybodaeth eang am y gwaith cadwriaethol pwysig sy'n digwydd yn Moelyci. Mae siop ar y safle sy'n agored trwy'r flwyddyn ac yn gwerthu amrywiol bethau gan gynnwys bwyd cyflawn. Mae croeso i bobl o bob oed yn Moelyci bob amser.

Bydd y Farchnad nesaf ar 9 Tachwedd o 10 - 2 o'r gloch yn y Clwb Rygbi. Croeso cynnes! Cynhelir y Stondin Elusen ym mis Tachwedd gan Eglwys Crist Glanogwen.

Am wybodaeth am y farchnad, cysylltwch â ni ar Facebook, neu Twitter #marchnadogwen neu ar ein gwefan www.marchnadogwen.co.uk .

# MELYS ATGOF

Chwarel Goch oedd enw'r capel y mynychwn y moddion ynddo ddwywaith bob Sul yn ystod fy maboed. Mae wedi'i leoli ar lain o dir y tu ôl i blanhigfa goed Parc Dob rhwng Sling a gwaelod Tregarth. Capel bychan, syml a diaddurn ydoedd ac fe ddechreuwyd ei adeiladu yn y flwyddyn 1877 ac fe agorwyd ei ddrysau i addolwyr yn 1878. Roedd yn perthyn i'r Annibynwyr.

Doedd gan eglwys Chwarel Goch ddim gweinidog cyflogedig rhwng y dyddiau y dechreuais i fynychu'r moddion ynddi oddeutu 1950 a'r adeg y caeodd y capel ei ddrysau yn 80au'r ganrif ddiwethaf. Wedi dweud hynny, fe hawliai'r eglwys wasanaeth y diweddar Barchedig Ivor Wynne Williams fel ei bugail yn ystod y cyfnod dan sylw. Fe aned yr ymadawedig ŵr hwnnw ym Mhenybryn, Bethesda, ar y 10fed o Ebrill 1903 ac fe'i magwyd ym Mraichmelyn nes yr oedd yn 14 oed. Symudodd wedyn i'r Gerlan lle bu'n byw tan iddo gael ei ordeinio i gyflawn waith y weinidogaeth yn Ninas Mawddwy yn y flwyddyn 1928.

Gŵr meingorff, glandeg yr olwg, gyda diniweidrwydd yn ei drem, oedd y diweddar Barchedig Ivor Wynne. Roedd ychydig dros bum troedfedd o ran taldra ac roedd ganddo wallt browngoch golau a thrwy lygad plentyn, fe sylwais fod tuedd ynddo i snwffian yn drwm o bryd i'w gilydd drwy un o'i ffroenau a hynny'n hollol ddiarwybod iddo'i hun, fe amcanaf erbyn hyn.

O ran cymeriad, roedd y diweddar Ivor Wynne cyn hyfwyned â theg hafau'r 1960au. Roedd ganddo galon wastad, roedd yn garedig ac roedd yn gysurwr diddchell. Yn wir, fe ddangosai yn ei holl ymddygiadau ei fod yn Gristion iach.

Byddai oedfaon Chwarel Goch yn dechrau gydag emyn a ddilynid gyda darlleniad o frenin holl lyfrau'r byd ac wedi'r darlleniad hwnnw byddid yn canu emyn arall a ddilynid gan weddi.

Ni fyddai Ivor Wynne yn diflasu ar weddïo a byddai'i weddïau bob amser o wead cartref ac yn gyflawn o wreiddioldeb gwerinwyr lleol Dyffryn Ogwen. Nodweddid hwynt gan daerni dwys. Ynddynt mewn iaith bur fel gwlith y bore byddai'n cyflwyno'i ddeisyfiadau ar Dduw i faddau pechodau'r rheini ym mrenhiniaeth y saint y byddai'n eirioli ar eu rhan a hefyd gofynnai i'r Nefol Dad gysuro pawb oedd dan swrn gormes a'u gochel rhag profedigaeth a drygioni.

Wedi i'r diweddar Barchedig ddarfod gweddïo, byddai un o'r diaconiaid yn darllen y cyhoeddiadau ac wedi hynny byddid yn gwneud y casgliad cyn canu'r trydydd emyn yn nhrefn y gwasanaeth ac yna fe draddodai'r gweinidog ei bregeth.

Ni fyddai'n un am bendilio o un eithaf i'r llall yn ei bregethau. Ni cheid twymdra llethol y trofannau ynddynt mwy nag iasoer rhynllyd y pegynnau. Yn hytrach, fe deimlai pawb a wrandawai arno fod yr awelon a ddeuai arnynt o'i bregethau'n rhai tyner ac adfywiol. Deallai pawb hwynt ac ystyriai'i wrandawyr mai un difyr i wrando arno oedd yr hen sant.

Nid Mamongarwyr oedd yn mynychu'r moddion yn Chwarelgoch ond addolwyr o'r un gyffes â'r gweinidog ei hun. Chwarelwyr gyda phwysau gormes arnynt oeddent gan mwyaf.

Byddwn yn mynychu'r moddion yn Chwarel Goch boed hindda neu ddrycin am yn agos i ddeng mlynedd o fy mhedwerydd pen-blwydd ymlaen. Am gyfnod, awn i'r capel o leiaf ddwywaith bob Sul – dan glaer-olau'r haul ar brynhawn o haf a than wenau'r sêr a golau'r lloer ar noson o aeaf. Yno, yn yr ysgol Sul, cefais fy annog i ochel y gau a charu'r gwir, dysgu'r wyddor Gymraeg ac wedyn dysgu darllen geiriau syml.

Cofiaf yr holl addolwyr a fynychai'r moddion yn Chwarelgoch. Yn eu plith yr oedd y diaconiaid Owen Owens, Allt George, Hugh Hughes, Sling, Alwyn Thomas, Penyffriddoedd (a godwyd yn flaenor yn ei ugeiniau cynnar), Sam Davies, ceidwad olaf caban signalau'r lein fach yn Hen Dyrpeg, Tregarth, a dau berthynas iddo o'r enw Huw Williams ac Amwel Davies. Evan Williams, Tŷ Capel, oedd arweinydd y gân. Byddai ei lais canu ef yn llenwi'r holl gapel.

Codwyd un yn unig i'r weinidogaeth yn y cyfnod dan sylw ac enw'r gŵr hwnnw oedd Dewi Morris o Waen y Pandy. Bu ef yn weinidog am gyfnod ar Eglwys Gynulleidfaol Salem, Porthmadog. Ei fam ef oedd yn canu'r piano yn Chwarel Goch. Byddai rhywbeth mawr o'i le os byddai hi'n absennol o'r moddion a'r gynulleidfa'n gorfod canu emyn heb gymorth offeryn cerdd.

Er nad wyf fi wedi tywyllu drws unrhyw le o addoliad ers degawdau bellach, fedra' i ddim ymysgwyd oddi wrth ddylanwad Chwarel Goch a'i saint arnaf. Ysywaeth, mae'r rhan fwyaf o'r rheini erbyn hyn yn anghyraeddadwy yng nghaethiwed angau. Coffa da amdanynt oll. Mae fy nyled yn fawr iddynt

**Dafydd Llewelun**
**(gynt o Dregarth ond yn byw yn Llanrwst ers blynyddoedd bellach)**

# GAIR O'R DOSBARTH

## Ysgol Dyffryn Ogwen

**Cyfarfod Gwobrwyo 2013**
Cynhaliwyd Cyfarfod Gwobrwyo blynyddol yr ysgol nos Fercher, Medi 18. Mae'r cyfarfod yn gyfle i ddathlu llwyddiannau ein disgyblion a'n pobl ifanc yn academaidd, yn allgyrsiol ac o ran ymdrech gyda gwaith ysgol.

Y gŵr gwadd eleni oedd Hywel Williams AS. Y mae Mr Williams wedi hen arfer croesawu disgyblion yr ysgol i San Steffan, ac yr oedd yn braf cael y cyfle i'w groesawu i'r ysgol.

Roedd hi'n bleser unwaith eto cydnabod llwyddiant ein disgyblion. Cafwyd canlyniadau TGAU da iawn eto eleni – gydag 85% o ddisgyblion blwyddyn 11 llynedd yn ennill yr hyn sy'n cyfateb i 5 gradd A*-C. Y pump disgybl a dderbyniodd wobrau am y perfformiadau TGAU gorau eleni oedd Mari Davies, Jack Henry, Bethan Hughes, Annest Rowlinson a Gwynfor Rowlinson.

Enillwyr Ysgoloriaeth Dafydd Orwig eleni oedd Mari Gwyn a Sian Mererid Jones. Mae'r ddwy bellach wedi cychwyn ar eu cyrsiau ym Mhrifysgol Aberystwyth. Un nodwedd arbennig o'r canlyniadau lefel A eleni oedd fod pob un disgybl wedi cael mynediad i'r cyrsiau o'u dewis. Ni fu'n rhaid i'r un disgybl o Ysgol Dyffryn Ogwen fynd drwy'r system 'clearing' i gael eu derbyn i brifysgol.

Yr oeddem hefyd yn falch o gyflwyno gwobr i Rebeca Roberts am berfformiad gorau lefel A ddwy flynedd yn ôl. Nid oedd Rebeca yn gallu bod yn bresennol ddwy flynedd yn ôl gan iddi fynd i weithio i ysgol ym Malawi yn Affrica am flwyddyn. Dipyn o brofiad!

Enillwyr Ysgoloriaeth Cyngor Cymuned Bethesda i gofio am y Streic Fawr oedd Alun Hughes-Jones, Iwan Jones ac Osian Owen. Mae Alun yn dilyn cwrs Celf yng Ngholeg Menai, Iwan yn gwneud cwrs amaethyddiaeth yng Nglynllifon, ac Osian yn gwneud cwrs arlwyo eto yng Ngholeg Menai.

Y disgyblion a dderbyniodd y gwobrau am y perfformiad gorau ym mlwyddyn 7 oedd Esme Crowe, Gethin Hughes, Joshua Hughes, Non Jones, Hannah Morgan, Cadi Roberts, Jorden Roberts, Dylan Robertson, Lucy Tatam a Gwilym Tossell.

Diolch yn arbennig eleni i Gyngor Cymuned Llandygai am gynnig gwobrau i ddau ddisgybl o bob blwyddyn a ddangosodd ymdrech arbennig ymhob agwedd o'u gwaith ysgol. Yr enillwyr yma oedd Joshua Heaton, Ellen Gould, Callie Bewley, Wil Owain, Scott Bullock, Catrin Jones, Carys Jones a Nicholas Johns. Cyflwynwyd y gwobrau ar ran y cyngor gan Mr Dafydd Owen.

Gwobr arbennig bob blwyddyn yw Tarian Carwyn Thomas a gyflwynir gan ei rieni, Mr a Mrs Emlyn Thomas, er cof amdano. Mae'r darian yn cael ei chyflwyno i ddisgybl sydd yn gwneud cyfraniad arbennig ym maes chwaraeon, a'r enillydd eleni oedd Morgan Owen, sydd yn chwarae rygbi i dîm Gogledd Cymru, ac wedi torri sawl record eleni ym mabolgampau'r ysgol.

Aled Oswianka Roberts oedd athletwr y flwyddyn. Daeth Aled yn 7fed drwy Gymru yn y naid uchel.

Am yr ail flwyddyn yn olynol, côr yr ysgol enillodd y wobr am dîm y flwyddyn. Bu'n flwyddyn lewyrchus iawn i'r côr gan iddynt berfformio dros Ŵyl Dewi yn Euro Disney, a pherfformio'n rhagorol yn Eisteddfod Powys ar ddiwedd y flwyddyn.



**Gwobrau blwyddyn 7**

**Mabolgampwyr y flwyddyn**



Samantha Lewis, Manon Hughes, Louise Jeffreys, Robbie Wilberforce Aled Owsianka, Sophie Ellis, Siôn Jones, Elin Owen a David Florence.

**Ymweliad â Llyfrgell Bethesda**
Bu Blwyddyn 7 ar daith i Lyfrgell Bethesda fore dydd Gwener, Hydref 4ydd 2013. Gwnaethom fap o Lyfrgell y Plant a chawsom gyflwyniad difyr tu hwnt gan Gwawr Williams a dysgodd i ni gyd am wasanaethau arbennig y llyfrgell yn ogystal â synnu eich bod bellach yn gallu benthyg a darllen llyfrau ar eich cyfrifiadur tabled (e.e. iPad neu Kindle). Mae popeth yno o lyfrau newydd sbon i gemau cyfrifiadaurol y gallwch eu benthyg. Gallwch fenthyg llyfrau am 3 wythnos yn rhad ac am ddim a dim ond £1.55 yw cost benthyg gemau cyfrifiadurol am wythnos - felly ewch amdani! Mae cyfrifiadur yno hefyd i chi gael gwneud eich gwaith cartref ac ymchwilio. Cewch fod yn aelod o'r llyfrgell am ddim a defnyddio'r cerdyn mewn unrhyw lyfrgell yng Ngwynedd, Conwy ac Ynys Môn - rydw i'n edrych ymlaen yn arw at ddefnyddio mwy ar fy ngherdyn i! Diolch yn fawr i staff y llyfrgell i gyd am eu croeso.
Adroddiad gan Beca Nia (7 Glyder)

**Gorsaf Radio Ogwen**
Mae gorsaf Radio Ogwen wedi bod yn brysur iawn yn ddiweddar gyda darpar gyflwynwyr radio'r dyfodol wedi bod yn bwrw eu prentisiaeth! Mae Owain Morgan ac Elliott Tugwell o flwyddyn 9 wedi bod yn cynnig cyngor i ddisgyblion blwyddyn 7, ac erbyn hyn maen nhw'n diddanu disgyblion yr ysgol bob amser cinio wrth chwarae cerddoriaeth Gymraeg a chyfweld hwn a'r llall. Bydd hi'n fis prysur dros ben yn yr orsaf gyda nifer o drigolion yr ardal yn dod i gael eu cyfweld gan ddisgyblion Ysgol Dyffryn Ogwen. Mae nifer o drigolion diddorol yr ardal wedi bod yn ein gorsaf radio eleni ac er mwyn cael blas o'r sgyrsiau hynny mentrwch draw i'n safle ar wefan Youtube sef youtube.com/ysgoldyffrynogwen

**Wythnos Sgiliau**
Bu disgyblion blwyddyn 7 am ddeuddydd o Gwrs Croeso – y diwrnod cyntaf yn aros yn Rhyd Ddu ac yn ddydd caled o gerdded yr Aran a'r ail yn adeiladu lloches ym Mharc Meurig gyda'r pwyslais ar weithio fel tîm. Mae myfyrwyr blwyddyn 12 hefyd yn brysur iawn yn cefnogi'r disgyblion, a bydd y profiad yn cyfrannu at weithgareddau'r Fagloriaeth iddynt hwy.

Gan fod blwyddyn 7 yn Rhyd Ddu manteisiwyd ar y cyfle i roi tridiau o brofiadau gwahanol i weddill yr ysgol, gan ganolbwyntio ar hybu'r sgiliau. Dyma oedd arlwy'r wythnos :

- Blwyddyn 7 – Rhyd Ddu, gweithgareddau Indonesia a dinasyddiaeth.
- Blwyddyn 8 – gweithgareddau hanes a diwylliant Dyffryn Ogwen, datrys problemau a diwrnod dinasyddiaeth gan ganolbwyntio ar adnoddau dŵr.
- Blwyddyn 9 – gweithgareddau gwrth-fwlio, dinasyddiaeth, cerddoriaeth a chelf. Bydd rhai o'r gweithgareddau'n cyfrannu at y Bac a'r sgiliau allweddol.
- Blwyddyn 10 – gweithgareddau'r Bac, sgiliau allweddol a rhifedd.
- Blwyddyn 11 – gweithgareddau'r Bac, sgiliau allweddol a sgiliau gwaith.

**Adran Addysg Gorfforol**
Llongyfarchiadau i Beca Jackson o flwyddyn 8 am ddod yn gyntaf yn Ras y Cob (dan 16) ym Mhorthmadog yn ddiweddar. Bu Beca a Moli Jackson bl7 yn cymryd rhan yn y ras filltir hanesyddol yma, a gynhaliwyd eleni ar ôl seibiant o ugain mlynedd. Braf oedd gweld Mici Plwm ar y system sain yn cyhoeddi un o ferched Dyffryn Ogwen yn gyntaf dros y llinell derfyn! Da iawn genod.



# Ysgol Abercaseg

**Aelodau'r Sgwad Syniadau a'r Bysedd Gwyrdd**
Gallai ambell wleidydd sy'n bwriadu sefyll fel Cynghorydd, Aelod Cynulliad neu Aelod Seneddol yn yr etholiadau nesaf ddysgu ambell wers ynglŷn ag ennill pleidleisiau o wrando ar areithiau aelodau newydd y Sgwad Syniadau a'r Bysedd Gwyrdd. Bu i bob un ohonynt argyhoeddi eu cyd ddisgyblion, drwy fynegi eu dymuniadau ar gyfer gwella darpariaethau ac amgylchedd yr ysgol, ac mai nhw fyddai'r rhai gorau ar gyfer y swyddi. Mae'r aelodau fel a ganlyn:-

**Sgwad Syniadau:**
Ela, Lowri, Ruby-Grace, Megan Ellis, Gruffudd a Sienna.
**Bysedd Gwyrdd:** Rhiannon, Gethin, Wil, Cara, Gwion a Megan Roberts.
Pob hwyl iddynt wrth ymroi i'w cyfrifoldebau dros y flwyddyn.

**'Wythnos Cymru Daclus'**
Pwy ohonoch chi welodd griw o blant yn cerdded o amgylch y pentref yn casglu sbwriel oddi ar y palmentydd a'r gwrychoedd?Grŵp Bysedd Gwyrdd yr ysgol oedden nhw yn gwneud ei ran i godi ymwybyddiaeth pobl o 'Wythnos Cymru Daclus', lle roedd gwirfoddolwyr ledled y wlad yn mynd ati i gasglu sbwriel yn eu hardal leol.Chymrodd hi ddim llawer o amser i'r holl fagiau sbwriel gael eu llenwi!!!



**Da iawn chi blant am ymdrechu'n ddiflino i dacluso'r pentref.**

**Canmoliaeth Uchel yn Sioe Llanelwedd**




I'r rhai hynny ohonoch a ymwelodd a'r Babell Flodau yn Sioe Frenhinol Llanelwedd eleni efallai i chi sylwi bod Ysgol Abercaseg wedi derbyn canmoliaeth uchel yng Nghystadleuaeth Gerddi Ysgol CAFC .Roedd y beirniaid wedi rhyfeddu bod darn o dir gwastraff wedi ei drawsnewid yn ardd gynhyrchiol mewn amser mor fyr!!Yn sicr mae'r cyfan o ganlyniad i waith caled y plant ,eu rhieni a staff yr ysgol. Llongyfarchiadau mawr i bawb a diolch yn arbennig i Steven Roberts, tad Llinos a Lois am dorri'r gwair yn rheolaidd drwy'r flwyddyn. Dyma lun o aelodau'r Sgwad Syniadau gyda'r dystysgrif a dderbyniwyd gan y Sioe Frenhinol.

**Cynllun Ysgolion Iach**
Mae Ysgol Abercaseg bellach wedi cyflawni holl ofynionCam 5 Cynllun Ysgolion Iach Gwynedd. Mae hyn yn adlewyrchu'r holl waith yr ydym yn ei wneud i gyfrannu'n bositif tuag at iechyd a lles ein disgyblion, athrawon a'r gymuned ehangach trwy ddatblygu amgylchedd sy'n hyrwyddo iechyd.

**Rhodd Ariannol**
Diolch o galon i staff 'Tafarn Y Bull' am eu rhodd hael o £200 i'r ysgol. Rydym yn siwr o wario'r arian yn ddoeth er budd disgyblion yr ysgol.

**Croesawu staff newydd**
Hoffem groesawu Miss Cadi atom fel aelod newydd o staff Dosbarth Ffrancon. Mae Cadi eisioes yn gyfarwydd i nifer o'r plant gan ei bod yn gweithio yn y Clwb Ar Ôl Ysgol.Croeso hefyd i Miss Nerys i'w swydd newydd fel Arweinydd Clwb Cinio a Phrynhawn Ysgol Abercaseg. Gobeithio y bydd y ddwy ohonoch yn hapus yn ein plith.

# Ysgol Tregarth

**Blasu**
Cafodd plant y Dosbarth Derbyn fore wrth eu bodd ar drip i Gaffi Coed-y-Brenin, Bethesda fel rhan o'u gwaith ar y thema 'Blasus'. Cawsant ddiod a bisged yn y caffi a chael cyfle i weld sut le ydi caffi go iawn! Maent wrth eu boddau yn chwarae rôl yng nghaffi'r dosbarth erbyn hyn ac wedi bod yn brysur yn paratoi ac yn addurno teisennau eu hunain. Diolch o galon i staff caffi Coed-y-Brenin am eu croeso cynnes.



Diolch hefyd i Anti Shirley ac Anti Fiona am adael i ni ymweld â chegin yr ysgol. Dangosodd Anti Shirley nifer o lysiau i'r plant a chawsant gyfle i weld sut mae paratoi teisen - a chael darn i'w brofi hefyd wrth gwrs! Cafwyd cyfle hefyd i ymarfer gosod y bwrdd yn gywir ar gyfer amser cinio. Diolch am eich hamser gyda'r disgyblion!

**Profi'r Blitz**




Teithiodd plant blwyddyn 5 a 6 yn ôl mewn amser a threulio bore cyfan fel efaciwîs yng Nghastell Penrhyn. Cawsant gyfle i wneud mat rhacs a dysgu sut i drwsio sanau, paratoi pastai datws a chuddio mewn lloches Morrison. Bu'n rhaid gwisgo labeli enwau a chario bocs mwgwd nwy trwy'r bore (sôn am gwyno!) - bu'r profiad yn gyfle gwerthfawr i geisio dychmygu bywyd plentyn adeg yr Ail Rhyfel Byd fel rhan o'u gwaith ar thema'r Blitz y tymor hwn. Bu Mr Williams o Archifdy Gwynedd hefyd yn y dosbarth yn dangos pob math o arteffactau i ni - o fygydau nwy babi ac un 'Mickey Mouse' y byddai plant yn ei wisgo, i chwiban a chloch Warden Cyrch Awyr.

**Hau Syniadau**
Croesawyd y canwr a'r actor poblogaidd Dewi Pws a staff canolfan Pontio Bangor i'r ysgol i gydweithio gyda phlant Blwyddyn 5 Ysgol Tregarth a Bodfeurig. Cafodd y plant gyfle i drafod beth yr hoffent ei weld a'i wneud yng nghanolfan newydd Pontio a phlannu eu syniadau, yn llythrennol felly, mewn potiau bach papur. Bydd y potiau'n cael eu plannu ymysg sylfeini yr adeilad newydd yn y gobaith y bydd y syniadau'n egino a chael eu gwireddu. Cafodd y plant gyfle hefyd i wrando ar farddoniaeth, canu, odli a chreu eu cerdd eu hunain i'w harddangos ar furiau'r adeilad newydd.

**Am Dro i'r Coed**
Mae dosbarth Tryfan wrthi'n brysur iawn y tymor yma yn dysgu am y goedwig wyllt a phopeth sy'n byw ynddi. Fel rhan o'r gwaith maent wedi ymweld â choetir yn Nhregarth. Daethant o hyd i lawer o drychfilod gwahanol ac ar ôl dychwelyd i'r dosbarth maent wedi bod yn brysur iawn yn dysgu mwy amdanynt ac am eu cynefin.

**Diolch**
Diolch o galon i Anti Shirley ac Anti Fiona am baratoi gwledd i holl athrawon y dalgylch yn ystod dau gwrs hwyrnos Rhifedd yn ddiweddar. Roedd pawb yn werthfawrogol ohoni yn ystod y cyrsiau o dan arweiniad Carol Ayres.

# Ysgol Bodfeurig



Ymweliad- Daeth yr Heddwas Dewi Thomas atom yn ddiweddar i atgoffa'r disgyblion o sut i gadw'n ddiogel, megis peidio a chyffwrdd moddion yn y cartref.



Cyngor Ysgol-Etholwyd y Cyngor Ysgol. Llongyfarchiadau i Meical, Maddy, Gwydion, Jacob a Nel.



Clwb Garddio-Daeth Anti Karen, mam Nel atom i godi'r llysiau yn ystod y mis. Roeddem yn lwcus iawn o gael cnwd da iawn eleni o datws a ffa. Diolch yn fawr iawn i chi Karen am fod yn barod iawn i ddod i arddio atom . Cafodd y pl ant fwynhad wrth flasu'r llysiau - Mmmm!

# Ysgol Llanllechid

**Ffair Fawr Ysgol Llanllechid**
Mae Ysgol Llanllechid yn hynod o ffodus yn eu rhieni a'u cymuned. Codwyd dros £2,200 i Gronfa`r ysgol sy`n swm anhygoel. Llawer o ddiolch i'r Gymdeithas Rhieni Athrawon o dan arweiniad Mrs Lowri Roberts a Mrs Iona Robertson am eu gwaith diflino, unwaith yn rhagor eleni. Cafodd y plant, rhieni a ffrindiau'r ysgol fodd i fyw yn prynu a gwerthu a mwynhau Band Porthaethwy a'r holl ddigwyddiadau eraill, heb anghofio ein salon gwallt newydd sbon! Roedd yn ddigwyddiad hapus, sy'n gwneud i ni werthfawrogi cynhesrwydd a haelioni pobl yr ardal. Diolch i bawb. Bu disgyblion yr ysgol ar lu o deithiau ac ymweliadau ar gychwyn y tymor newydd:

**Eithinog**
"Astudiwch y pethau bychain ," yw arwyddair Bl 6 y tymor hwn wrth iddynt fynd ar eu gliniau i ymchwilio i gynefinoedd amrywiol , gan gynnwys yr ardd a chaeau'r ysgol a`r llwyni cyfagos. Ond antur go iawn i'r gwyllt oedd cael ein tywys gan Mr Ben Stammers a Rheon Roberts yn Eithinog. Roedd yna gyfoeth o greaduriaid bychain a chyfleoedd i chwilota a chofnodi pob math o fioamrywiaeth gyda rhwydi, potiau sugno a chrafwr digidol. Diolch yn fawr iddynt ac i`r Ymddiriedolaeth Natur Cymru am eu gwaith yn diogelu ein cynefinoedd gwyllt er mwyn I ni gael dysgu.

**Lerpwl**
Aeth Blwyddyn 5 unwaith eto, ar eu taith arbennig i Lerpwl fel rhan o'u gwaith ar y 60au. Roedd pawb wedi gwisgo dillad y cyfnod a chafwyd ymweliad ag Amgueddfa'r Beatles. Yn y llun gwelwn rai o'r plant a'r staff yn mwynhau eu hunain yn Albert Dock.

**Teithiau Cerdded**
Cafodd Blwyddyn 4 fynd ar daith gerdded yng nghwmni Cemlyn a Morfudd i ben Moel Wnion, Gyrn a Moel Faban yn ddiweddar, a disgyblion Blwyddyn 3 i ben Moel Faban a Moel Wnion. Roeddynt yn deithiau cofiadwy ac roedd hanesion Cemlyn am yr ardal leol yn ddifyr dros ben, yn enwedig hanes y 'Garreg Canan.'

**Camau tua'r copa**
Am braf cael y cyfle i grwydro'n mynyddoedd a dyna wir oedd y profiad a gafodd Bl 5 a 6 wrth groesi o Abergwyngregyn heibio'r rheadr yn ôl am Ysgol Llanllechid. Diolch yn fawr i Cemlyn a Morfudd fu'n ein harwain. Mae Bl 6 eisioes yn edrych ymlaen at goncro'r Wyddfa`r flwyddyn nesaf.



**Taith Gerdded Bwyddyn 6**

**Gelli Gyffwrdd**
Aeth dosbarthiadau Blynyddoedd 1 a 2 i Gelli Gyffwrdd yn ddiweddar i adeiladu cuddfannau ac astudio bywyd y goedwig yn ogystal â defnyddio'u synhwyrau. Cafodd pawb hwyl arbennig ac roedd y plant i gyd wedi blino'n lân.

**Ymweliad Dewi Pws**
Cafodd disgyblion blwyddyn 5 fore bendigedig yng nghwmni Dewi Pws a Mared Huws o gynllun Pontio. Profiad gwerthfawr oedd gwrando ar sawl stori a cherddi digri yn null unigryw Dewi Pws, ond mae'n siwr mai'r uchafbwynt oedd ei glywed yn canu 'Mae rhywun wedi dwyn fy nhrwyn!' Creodd y disgyblion gerdd yn sôn am eu dymuniadau a'u dyheadau i`r dyfodol.

**Addysg Gorfforol**
Mae'r Dosbarth Derbyn yn mwynhau mynychu Plas Ffrancon yn wythnosol ar hyn o bryd a Blynyddoedd 3 a 4 yn cael hwyl yn eu gwersi nofio ym Mangor.

**Drymio Affricanaidd**
Daeth Sidiki Dembele a`i wraig i gynnal gweithdai 'Drymio Affricanaidd' am ddiwrnod cyfan yn yr ysgol. Roedd ganddo nifer helaeth o ddrymiau a chafodd pob plentyn gyfle i gadw rhythm mewn dull bythgofiadwy! Diwrnod gwych!

**RSPB Bl 3 a 4**
Mae`r daith addysgiadol hon bob amser yn llwyddiant ac yn cynnig llu o brofiadau gwahanol i`r disgyblion. Unwaith eto, cafwyd diwrnod arbennig o ddiddorol yn RSPB, Conwy. Rhyfeddodd y disgyblion at ogoniant byd natur a gwelwyd torreth o anifeiliaid gan gynnwys deg Creyr Glas yn sefyll gyda'i gilydd a'u pennau yn eu plu a sawl madfall yn cuddio dan y cerrig heb sôn am y myrdd brogaod!

**Gwersi Offerynnol**
Mae nifer helaeth o ddisgyblion wedi manteisio eto eleni ar y gwersi offerynnol a geir yn yr ysgol, - offerynnau chwyth, pres, llinynnol, clwb gitars, yn ogystal a gwersi piano am y tro cyntaf eleni dan ofal Mrs Sioned Webb.

**Carys Ofalus**



Dyna hyfryd oedd cael ymweliad gan y gath enfawr Carys Ofalus! Roedd plant y Dosbarth Derbyn wrth eu boddau'n dysgu am reolau'r ffordd fawr wrth gael stori gan Carys! llun

**Ephapha**
Cafwyd hwyl a sbri gyda grwp Ephapha yn y gwasanaeth boreol, yn sgwrsio ac yn canu.

**Cydymdeimlo**
Cydymdeimlwn yn ddwys â theulu Ms Rhian Haf yn eu profedigaeth fawr. Bu farw mam Ms Haf, Mrs Mary Louise Roberts yn ddiweddar. Cofiwn amdani fel gwraig hynaws a gedy fwlch mawr ar ei hol. Anfonwn ein cofion cywiraf at y teulu oll.

# Ysgol Pen-y-bryn

**Pêl-droed 5 Bob Ochr**
Bu pêl-droedwyr yr ysgol yn cystadlu mewn twrnament ar gyrtiau pob tywydd y Pwll Nofio ym Mangor yn ddiweddar. Cafodd yr hogia lwyddiant mawr a chyrraedd y rownd derfynol yn erbyn Ysgol y Faenol. Colli fu eu hanes yn y 'ffeinal' ond roedd safon y beldroed a chwaraesant drwy'r twrnament yn uchel iawn ac yn werth i'w weld. Diolch i Sian a Sara o Ysgol Hirael am drefnu'r diwrnod eto eleni. Diolch hefyd i Mark Hughes am ei barodrwydd bob amser i'n helpu gyda chludiant a hefyd am hyfforddi'r hogia i safon mor uchel.

**Moelyci**
Cafwyd diwrnod difyr iawn yng nghwmni Cemlyn Jones a Morfudd Thomas yr wythnos o'r blaen. Arweinwyd dosbarth Carnedd ganddynt ar daith gerdded i fyny i Foelyci. Wedi cyrraedd y copa, daeth cymylau duon i'n hamgylchynnu ac felly doedd dim posib mwynhau'r olygfa odidog sydd i'w gweld o'r fan honno. Cyflwynwyd y plant i lu o ryfeddodau natur a bu nifer fawr ohonynt yn casglu llus yn ystod y daith. Cafwyd cacennau llus blasus gan Grace Mayhead y diwrnod wedyn! Diolch i Cemlyn a Morfudd am ddiwrnod diddorol arall yn eu cwmni.

**Ysgol y Goedwig**
Mae Dosbarth Carnedd wedi bod yn mynychu dosbarthiadau awyr agored yng Nglan Faenol, Treborth, Bangor.Rydym wedi mwynhau nifer o weithgareddau difyr yng nghwmni Tom Cockbill a Resi. Dysgwyd am y gwahanol goed sydd i'w gweld yno a bu'r plant yn cyfansoddi cerddi am yr hyn maent wedi ei weld yno. Edrychwn ymlaen at y gwersi sydd i ddod. Diolch yn fawr i Tom a Resi am eu croeso a'u hymroddiad efo'r plant bob amser. Mae angen canmol Resi (sy'n dod o'r Eidal) am ei hawydd i ddysgu a siarad Cymraeg ar bob ymweliad!

**Taith Caerdydd gan Lleucu Bryn a Dyddgu Jones:**
Yn y bore bach mae'i dal hi yn ôl yr hen ddywediad, a dyna'n union a wnaethom ni fore Mercher Medi 18, pan heidiodd 47 ohonom i Gaerdydd. Roedd pawb yn llawn cyffro ac yn edrych ymlaen at y daith hir-ddisgwyliedig.



Pwll Mawr ym Mlaen Afon oedd yr ymweliad cyntaf. Diddorol oedd cael teithio o dan ddaear a gweld pa mor anodd oedd amodau gwaith y glowyr a fu. Anelasom yn syth wedyn at Wersyll Yr Urdd, ble cawsom groeso penigamp, pryd o fwyd blasus ac yna gêm o fowlio deg. Wel sôn am gystadleuol oeddem ni, heb sôn am yr athrawon.

Y diwrnod canlynol buom yn ymweld â'r Senedd. Bu dadlau brwd yn y Cynulliad am geisio creu deddf i wahardd diodydd egni . Roedd pawb am y gorau i leisio'u barn. Ar ôl cael bocs bwyd blasus, mentro i Sain Ffagan yng nghanol y glaw fu ein hanes!

Uchafbwynt y daith heb os, oedd ymweld â Stadiwm y Mileniwm. Gwych oedd clywed y dorf yn bloeddio pan wnaethom gamu ar y cae. Profiad gwefreiddiol.

Fel y gallwch ddychmygu cafwyd taith llwyddiannus a blinedig eto eleni a phrofiadau amhrisiadwy i ni'r disgyblion. Diolch yn fawr iawn i bawb a fu'n gofalu amdanom, a hoffai'r staff ddiolch o galon i'r plant am roi enw da unwaith eto i ddisgyblion Penybryn.



**Dewi Pws**
Ar Fedi 16eg daeth Dewi Pws at blant Elidir a rhai o blant Glyder er mwyn cyfansoddi cerdd arbennig, sef cerdd am Fethesda. Bydd y gerdd yn cael ei harddangos yn ystod seremoni agoriadol Pontio, ym Mangor. Cafodd y plant a'r staff lawer o hwyl gyda Dewi Pws a hoffem ddiolch iddo am ddod atom.

**Diolch**
Diolch o galon i Ann, perchennog y Bull, am ein cefnogi unwaith yn rhagor gyda chyfraniad ariannol.

# Ysgol Rhiwlas

**Llwybrau'r Fro**
Cyflwynwyd mapiau wedi eu fframio i blant Ysgol Rhiwlas gan y Cynghorwyr Cymuned. Mae'r mapiau o rai o lwybrau plwyf Llanddeiniolen ynghŷd â hanesion cysylltiedig â'r llwybrau o'r oes efydd i'r ail ryfel byd.Cynhyrchwyd y mapiau gan Gareth Roberts, dan Gynllun Cerdded a Darganfod, Menter Fachwen.Mae Gareth hefyd yn arwain teithiau cerdded amrywiol a diddorol iawn yn rhad ac am ddim.




**Yn y llun gwelir Rhian Evans, Cyngor Cymuned Llanddeiniolen, Iwan Davies, Pennaeth Ysgol Gynradd Rhiwlas, a Hefin Williams, Cyngor Cymuned Llanddeiniolen.**



Y digrifwr Dewi Pws ar ymeliad ag Ysgol Rhiwlas

 Llais Ogwan 24




HYSBYSEB SWYDD

Cynghorydd Gwasanaethau Cwsmer
Hyd at £15,000
Lleoliad: Caernarfon

YSWIRIANT / PENSIYNNAU / BUDDSODDIADAU

Mae NFU Mutual yn gwmni yswiriant a gwasanaeth ariannol blaenllaw sydd wedi bod yn gwasanaethu ardaloeddd gwledig ers dros 100 mlynedd. Trwy ein swyddfa leol yng Nghaernarfon, yr ydym yn darparu gwasanaeth heb ei ail gan ganolbwyntio ar wasanaeth gonest a phersonol i'n cwsmeriaid.

Fel Cynghorydd Gwasanaethau Cwsmer o fewn ein tîm, fe fyddech yn chwarae rhan allweddol mewn datblygu ein busnes llwyddiannus yn lleol, a sicrhau bod ein cwsmeriaid yn hapus a bodlon. Tra'n cynnal cymorth gweinyddol ardderchog, fe fyddwch hefyd yn ymateb i ymholiadau cwsmeriaid, cynnal a chadw gwaith papur, ac yn gwerthu a diweddaru ein gwasanaethau gyda awch a brwdfrydedd.

Disgwylir bod gennych agweddau ardderchog trwy allu annerch pobl wyneb yn wyneb ac ar y ffôn, a'ch bod yn berson hyblyg eich natur gydag awch bositif i weithio efo pobl, Byddwch hefyd yn gallu cydweithio'n hapus gydag eraill ac yn mwynhau bod yn rhan o dîm brwdfrydig ac uchelgeisiol.

Mi fyddwn yn darparu rhaglen hyfforddiant gyflawn i chi mewn awyrgylch hyblyg a chyfeillgar.
Mae'r gallu i gyfathrebu yn effeithiol drwy'r Gymraeg a'r Saesneg yn hanfodol.

I ymgeisio am y swydd, anfonwch eich CV trwy e-bost at y Rheolwr hedd_rhys@nfumutual.co.uk neu am fwy o fanylion cysylltwch a Hedd ar 01286 673377.

**Dyddiad cau: 30 Hydref 2013.**
**Noder y byddwch yn cael eich cyflogi gan H Rhys, Asiant i'r NFU Mutual ac nid NFU Mutual ei hun.**

CYMDEITHAS ADDYSG Y GWEITHWYR (G)
COLEG HARLECH

**TIWTORIAID CYMRAEG**
Mae CAG Coleg Harlech yn chwilio am diwtoriaid Cymraeg brwdfrydig i ddysgu cyrsiau Cymraeg i'r Teulu ar draws Gogledd Cymru a Phowys. Mae'r holl gyrsiau ar lefel Mynediad (addas i ddechreuwyr). Cyrsiau hwyliog a bywiog sy'n canolbwyntio ar fyd plant.

Rhaid i ymgeiswyr feddu ar sgiliau Cymraeg rhagorol ar lafar ac yn ysgrifenedig.
Yn ddelfrydol bydd gennych brofiad blaenorol fel Tiwtor Cymraeg i Oedolion neu athro iaith.

Swyddi Rhan Amser, Oriau hyblyg
Cyflog: £16.44 neu £19.11 yr awr
(Gyda £2.61 neu £3.02 yr awr o dâl gwyliau)
(yn ddibynnol ar gymwysterau)

Lleoliadadau: Ardal Bethesda a Bangor
Dyddiad cau: 04.11.13

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â'r:
Swyddfa Bersonél,
Bryn Menai,
Ffordd Caergybi, BANGOR,
Gwynedd, LL57 2JA
Rhif Ffôn: 01248 353254
E-bost:personel@harlech.ac.uk

# Beth sy'n digwydd yn y Dyffryn?

**Caffi Coed y Brenin**
**Bore Coffi**
**Plaid Cymru**

Sadwrn, 19 Hydref 2013
10.00 – 12.00

Mynediad £1.00

**Canolfan Cefnfaes**
**Bore Coffi**
**Merched y Wawr**

Sadwrn, 2 Tachwedd 2013
9.30 – 12.00

**Cyfarfod Blynyddol Llais Ogwan**

yng Nghanolfan Cefnfaes

Nos Fercher 6 Tachwedd
am 7.30 yr hwyr

Croeso Cynnes i Bawb

**Marchnad Ogwen**

Yr ail ddydd Sadwrn yn fisol
10am - 2pm

**Tachwedd 9fed**
Yn y Clwb Rygbi, Bethesda

**Rhagfyr 14eg**
Yn y Clwb Rygbi, Bethesda

**Bwydydd, Crefftau, Caffi**

www.marchnadogwen.co.uk
Twitter #marchnadogwen
Facebook

**Canolfan Cefnfaes**
**BETHESDA**
**GYRFA CHWIST**

Hydref 22 a 29.
Tachwedd 12 a 26
am 7.00 o'r gloch

Dewch i fwynhau nosweithiau difyr

**EGLWYS UNEDIG BETHESDA**
**'LLENWI'R CWPAN'**

Dewch am sgwrs a phaned

Bob bore dydd Iau
rhwng 10.00 o'r gloch a hanner dydd

**Caffi Coed y Brenin**
**Bore Coffi**

Sadwrn, 9 Tachwedd 2013
10.00 – 12.00

Mynediad £1.00
Yr elw er budd Nicola Williams

**Sesiynau Siarad i Ddysgwyr**

| Paned a Sgwrs | Peint a Sgwrs |
|---|---|
| Caffi Fitzpatrick | Douglas Arms |
| Bethesda | Bethesda |
| 11.00 – 12.00 | 20.00 – 21.00 |
| Dydd Sadwrn | Trydydd Nos Lun |
| cyntaf pob mis | pob mis |

**Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen**

**Nos Wener, 15 Tachwedd 6.30pm**
**yn Ysgol Dyffryn Ogwen**
Seremoni'r Orsedd, Cystadleuthau'r Corau, Unawdau Lleisiol ac Offerynol a chystadleuthau i ysgolion uwchradd

**Dydd Sadwrn, 16 Tachwedd 10.00am**
**yn Ysgol Dyffryn Ogwen**
Gwledd o Gystadleuthau Cynradd -
canu, llefaru, dawns celf a chrefft

**Dewch yn llu**

**Cyfarfod Blynyddol Caban Gerlan**

19 Tachwedd
am 7.00 o'r gloch
yn y Caban

Croeso Cynnes i Bawb

Cymdeithas Hanes Dyffryn Ogwen

Nos Lun 11 Tachwedd 2013
yn Festri Capel Jerusalem

**Dei Tomos**
'Awyr Las i'w Harloesi'
Teithwyr Cynnar Eryri

£1.50 wrth y drws
neu am ddim i aelodau

Caban Cysgu
**Beiciau i'w llogi**



**Am fwy o wybodaeth Cysylltwch ar 01248 605573**




**I gynnwys eich gweithgareddau lleol yn Nyddiadur y Dyffryn cysylltwch â**

**Neville Hughes**
**☎ 600853**

# Chwaraeon

# Rygbi

## Carfan Rygbi Bethesda



**Y chwaraewyr, Wil Sandison (Cyfarwyddwr Rygbi), Gruff Elis-Williams (Rheolwr), Wyn Isaac (Prif Hyfforddwr) a Rebecca Chapman (Physiotherapydd)**

## Adran 1 Gogledd

Er ei bod yn ddyddiau cynnar yn y tymor, Bethesda oedd ar frig tabl Adran 1, wedi ennill 4 gêm o 5 ar ddechrau mis Hydref. Dyma gychwyn gorau'r Tîm Cyntaf ers nifer o flynyddoedd.Yn wir, dylai'r tîm, sydd gyda'r dalgylch lleiaf yn y gogledd, fod wedi ennill pob gêm hyd yn hyn.

Dan law Wil Sandison, Y Cyfarwyddwr Rygbi a Wyn Isaac, Y Prif Hyfforddwr, mae Bethesda wedi dangos cryn gymeriad y tymor yma wrth frwydro mewn amgylchiadau anodd. Da gweld 2 gyn chwaraewr, Bill Huaki a Graham Davies yn rhoi o'u hamser i hyfforddi yn ystod yr wythnos. Mae Graham wedi gwisgo'r hen esgidiau unwaith eto'r tymor yma ac wedi ymddangos nifer o weithiau fel mewnwr. Da was da!

Gyda rhai o chwaraewyr dylanwadol y clwb wedi eu hanafu, rhai eraill wedi gadael am borfeydd brasach Caer a rhai wedi ymddeol, roedd y sefyllfa cyn cychwyn ar y tymor yn edrych braidd yn anobeithiol.

Fodd bynnag, does dim byd tebyg i lwyddiant i godi hyder. Ar ôl crafu buddugoliaeth i ffwrdd ym Mlaenau Ffestiniog a brwydro'n ôl yn Nolgellau gwelwyd yr hyder yn tyfu. Bu chwarae am hanner y gêm yn erbyn Y Bala gydag un dyn yn brin yn fodd i fagu cymeriad ac i glymu'r chwaraewyr at ei gilydd. Teithiwyd i Ruthun heb y capten, Paul Thomas a dau neu dri o chwaraewyr profiadol eraill. Roedd y tîm cartref yn rhagori yn y sgrymiau a'r llinellau ond Bethesda oedd yn rheoli'r chwarae rhydd a hogia' Pesda gafodd fuddugoliaeth ganmoladwy o 5 cais i 4.

**Dyma'r canlyniadau cyn belled -**
Bro Ffestiniog 10 - Bethesda 17
Bethesda 24 - COBRA 7
Dolgellau 13 - Bethesda 23
Bethesda 10 - Y Bala 19
Rhuthun 26 - Bethesda 36

Prif sgoriwr y tîm ydi'r maswr Mathew Parry gyda 65 o bwyntiau, yn cynnwys 7 cais, 9 trosiad, 3 gôl gosb ac 1 gôl adlam. Yn anffodus, mae'r clwb yn debygol o fod heb wasanaeth Mathew am rai wythnosau oherwydd iddo dderbyn cerdyn coch yn y gêm yn erbyn y Bala.

Fydd yr un tîm yn disgyn o Adran 1 y tymor yma. Bydd 2 dîm yn ennill dyrchafiad ar diwedd y tymor er mwyn cynyddu nifer y timau i 12 y tymor nesaf. Dyma gyfle felly i chwaraewyr llai profiadol ymladd am safle yng ngharfan y Tîm Cyntaf.

Dyfarnwyd y clwb yn un o 6 yn y gogledd sy'n gymwys i ddatblygu chwaraewyr ifanc rhanbarth Gogledd Cymru. Gobeithio y bydd hyn o fudd i'r clwb ac i'r chwaraewyr ifanc fydd yn gobeithio cael eu derbyn i chwarae i RGC 1404 yn y dyfodol.

# Cylchdaith Prydain



**Dyma lun o Dave Roberts, Ciltwllan, Gerlan, yn cymryd rhan fel stiward ym Mhen y Pas yn ystod y ras feicio enwog, Cylchdaith Prydain.**

## Clwb Criced Bethesda
## TYMOR GWELL

Bu gwelliant mawr yn y tywydd  ac yn safon y chwarae ar y cae criced ym Mharc Villa o gymharu â'r tymor diwethaf.

Cyn cychwyn tymor yr haf, llwyddodd y tîm dan 10 oed i ddod yn ail yng nghystadleuaeth Criced o dan do a chwaraewyd dros fisoedd y gaeaf. Collwyd i dîm Bae Colwyn yn y rownd derfynol.

Ar y cae, a than gapteniaeth Lee Williams, gorffennodd y tîm cyntaf yn bumed yn Adran 2, hynny wedi dechrau araf i'r tymor.

Mewn noson wobrwyo yn ddiweddar, fe ddatgelwyd mai Nicholas Roberts oedd y prif fatiwr, a Gwyn Hughes a gipiodd wobr y prif fowliwr.

Tymor anghyson gafodd yr ail dîm, yn bennaf oherwydd diffyg trefn y Gynghrair 5. ‘Roedd rhai timau yn anfodlon chwarae oddi cartref a gwnaeth hynny dipyn o lanast o'r Gynghrair. Bu’n rhaid i bwyllgor y Gynghrair weithio'n galed dros yr haf i wella'r sefyllfa, oedd yn dipyn o ffars ar adegau - gymaint felly fel nad yw safleoedd y timau wedi eu setlo ganddynt eto. Gorffennodd Bethesda yn ail o dan gapteniaeth Iwan Ellis, ond mae pwyllgor y Gynghrair yn dal i edrych ar rai o’r digwyddiadau dros yr haf cyn cadarnhau y safleoedd terfynol. Dywedais ei bod yn ffars yn do! Enillydd y prif fatiwr i'r tîm oedd Ioan Roberts, a'r prif fowliwr oedd Iestyn Roberts.

Llwyddodd y tîm canol yr wythnos i gipio'r bencampwriaeth o dan gapteniaeth Liam Davies. Y prif fatiwr oedd Gwyn Hughes, gyda Rhys Pritchard yn cipio gwobr y bowliwr.

Yn ystod y tymor llwyddodd Mathew Buchanan i gael ei ddewis i garfan a thîm o dan 15  Cymru. Bu'n teithio llawer yn ystod y tymor i chwarae'r gemau. Pob hwyl iddo dros y tymhorau nesaf. Llongyfarchiadau i'r chwaraewyr a'r timau ar dymor llwyddiannus. Gyda rhagor o ymroddiad dros y tymorhau nesaf, fe ddylem fedru adrodd am fwy o lwyddiannau i'r timau.




**Alun Ffred Jones**
Aelod Cynulliad
Etholaeth Arfon

**CYMORTHFEYDD**
Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda’ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag o yn ei swyddfa ym Mangor neu yng Nghaernarfon

**Swyddfa Etholaeth,** 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
☎ (01248) 372 948

**Swyddfa Etholaeth,** 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
☎ (01286) 672 076

**alunffred.jones@cymru.gov.uk**



**Hywel Williams**
Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon

**CYMORTHFEYDD**
Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda’ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa ym Mangor neu yng Nghaernarfon:

**Swyddfa Etholaeth,** 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
☎ (01248) 372 948

**Swyddfa Etholaeth,** 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
☎ (01286) 672 076

**williamshy@parliament.uk**